CARDIFF
CAERDYDD

Strategaeth Celf Cyhoeddus Caerdydd

Cynllunio Strategol

Strategaeth Celf Cyhoeddus Caerdydd

CYHOEDDEDIG 2005

Cynnwys

1. CYFLWYNIAD
Strategaeth Celf Cyhoeddus Caerdydd 4
Amcanion y Strategaeth Celf Cyhoeddus 4
Budd Celf Cyhoeddus 5
Maes y Strategaeth 6
Ymgynghoriad Cyhoeddus 7

2. DINAS A SIR CAERDYDD 8
Etifeddiaeth Caerdydd 8
Celf Cyhoeddus yng Nghaerdydd Heddiw 9
Swyddogaeth y Cyngor 9

3. ARWEINIAD AR GELF CYHOEDDUS 10
Polisi Cynllunio Cenedlaethol 10
Polisi'r Cyngor 11

4. DIFFINIADAU O GELF CYHOEDDUS 13
Diffiniadau o Gelf Cyhoeddus 13
Yng Ngafael y Cyhoedd 15
Meini Prawf Angenrheidiol ar gyfer Diffinio Celf Cyhoeddus 15
Rhoddion a Chyfraniadau 16

5. CYFLEODD AR GYFER CELF CYHOEDDUS
Pyrth 17
Cysylltiadau a Themâu 18
Tirnodau 18
Gwaith Celf Unionlin 18
Cymunedau Lleol 19
Lleoliadau ar gyfer Gwaith Celf Dros Dro 19
Lleoliadau ar gyfer Gwaith Celf y Tu Mewn 19
Safleoedd Datblygu ac Amgylcheddau sy'n Bodoli Eisoes 20
Gwaith Celf Synhwyraidd 20
Rhaglenni Addysg 21

6. DATBLYGU CYNIGION GWAITH CELF 22
Ystyriaethau Cychwynnol 22
Cyllideb Projectau 23
Ffynonellau Cyllid 24
Cydsynio a Chaniatâd 24
Asiantaethau Celf 25
Brîff y Project 26
Dewis Artistiaid 26
Ymrwymiad y Gymuned ac Ymgynghoriad Cyhoeddus 28
Rheoli'r Project 29
Cofnodi Manylion Project 29

7. EINIOES GWAITH CELF 31
Perchnogaeth Cyfreithiol a Dyletswydd Gofal 31
Rhaglenni Cynnal a Chadw 32
Goblygiadau Ariannol 32
Ail-leoli a Digomisynu 33

8. ARGYMHELLION GWEITHREDU 34
Argymhelliad 1.
Swyddog Celf Cyhoeddus 34
Argymhelliad 2.
Swyddog Celf Fforwm 35
Argymhelliad 3.
Canran ar gyfer Celf 36
Argymhelliad 4.
Cronfa Celf Cyhoeddus 37
Argymhelliad 5.
Cynllun Noddi Celf Cyhoeddus 38
Argymhelliad 6.
Gwybodaeth am Gelf Cyhoeddus 39
Argymhelliad 7.
Gwefan 40
Argymhelliad 8.
Arweiniad i Wybodaeth 40
Argymhelliad 9.
Llwybrau 41
Argymhelliad 10.
Marchnata 41

9. CYNLLUN GWEITHREDU 42
Blaenoriaethau Tymor Byr 42
Blaenoriaethau Tymor Canolig 42
Blaenoriaethau Tymor Hir 42

ATODIAD 1: CYFEIRIADAU 43
Dogfennau 43
Gwefannau 43
Cydnabyddiaeth 43

ATODIAD 2: CYSYLLTIADAU 44
Cysylltiadau Cyngor Sir Caerdydd 44
Cysylltiadau Asiantaethau Celf Cyhoeddus 44

Atebolrwydd ac Ymwadiad

Tra bod pob gofal rhesymol wedi ei gymryd wrth baratoi'r ddogfen hon i sicrhau bod yr wybodaeth a gynhwysir ynddi yn gywir, mae'r ddogfen hon, ei chynnwys, enwau, testun a delweddau a gynhwysir yn y ddogfen, wedi eu cyflwyno 'FEL MAE' a heb warant o unrhyw fath, naill ai wedi ei ddatgan neu ei awgrymu. I'r raddfa eithaf o fewn cyfreithiau y DU, mae Cyngor Sir Sir a Dinas Caerdydd ('Y Cyngor') yn ymwadu ag unrhyw warant wedi ei ddatgan neu ei awgrymu, gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i warantau a awgrymir parthed gofal rhesymol, ansawdd boddhaol neu addasrwydd ar gyfer pwrpas tebyg a heb dresmasu ar deitl.

Mae'r ddogfen yn cynnwys arweiniad a nodiadau ar rai agweddau o'r gyfraith fel y medrant effeithio ar berson cyffredin. Maent wedi eu bwriadu ar gyfer gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid ydynt yn creu cyngor cyfreithiol neu broffesiynol. Ni ddylid dibynnu arni fel sail ar gyfer unrhyw benderfyniad neu achos cyfreithiol. Nid yw'r Cyngor yn derbyn atebolrwydd am unrhyw golled a ddigwydd oherwydd dibyniaeth ar y ddogfen hon. Mae'r gyfraith yn newid drwy'r amser felly dylid ceisio cyngor arbenigol bob tro.

I'r graddau a ganiateir gan y cyfreithiau cymwysiadol, ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd am unrhyw golled canlyniadol neu niwed, boed yn uniongyrchol, yn ddamweiniol neu yn arbennig, i unrhyw ddefnyddiwr (naill ai yn codi o gytundeb, camwedd yn cynnwys esgeulustod neu fel arall) sydd yn codi allan o neu mewn cysylltiad â'r defnydd o'r ddogfen hon.

Ni chaiff cynnwys y ddogfen hon lyffetheirio'r Cyngor wrth iddo ymarfer ei weithgarwch statudol, gan gynnwys, heb gyfyngiadau i gyffredinolrwydd y blaenorol, ei weithgarwch fel Awdurdod Cynllunio Lleol neu awdurdod Priffyrdd Lleol.

Tŵr Dŵr
Roald Dahl Plass, Bae Caerdydd
Nicholas Hare, Penseiri, a William Pye, 2000

1. Cyflwyniad

Strategaeth Celf Cyhoeddus ar gyfer Caerdydd

1.1 Mae gan Gaerdydd etifeddiaeth gyfoethog o gelf cyhoeddus sydd wedi datblygu gyda'r ddinas dros y ganrif a fu ac sy'n ffurfio rhan o wead ei mannau cyhoeddus. O'r cofebion a'r cerfddelwau sydd yn cynrychioli hanes Caerdydd a phwysigrwydd digwyddiadau a phobl y gorffennol, i'r cerflunwaith mwy diweddar, digwyddiadau a gwaith celf cyfannol sydd yn rhoi ymdeimlad o hunaniaeth ac yn gwneud cyfraniad pwysig i ansawdd mannau cyhoeddus, mae gan y ddinas gyfoeth o gelf cyhoeddus o ansawdd uchel.

1.2 Wedi eu lleoli mewn mannau hygyrch a gweladwy i'r cyhoedd, mae celf cyhoeddus ar gael i bawb ei werthfawrogi, o drigolion y ddinas i'r rhai hynny sydd yn gweithio yn ac yn ymweld â Chaerdydd. Gall y gweithiai celf hyn gynorthwyo eglurdeb, gallant weithio fel arf addysgol gwerthfawr a rhoi cyfle i grwpiau ac unigolion ddatblygu diddordeb mewn a dealltwriaeth o gelf cyhoeddus.

1.3 Gall celf cyhoeddus ddwyn llawer o fudd i Gaerdydd. Yn bennaf, gall celf cyhoeddus dan reolaeth dda bwysleisio harddwch yr amgylchedd, annog mewnfuddsoddiad a chyfoethogi bywyd diwylliannol Caerdydd drwy gynnig cyfleoedd ar gyfer mynegiant cymunedol.

1.4 Pwrpas y Strategaeth Celf Cyhoeddus hon yw adeiladu ar lwyddiant Caerdydd, ymestyn cyfleoedd ar gyfer darparu celf cyhoeddus a hybu a sicrhau cyflwyno projectau celf cyhoeddus llawn dychymyg ac o ansawdd uchel sydd yn pwysleisio harddwch yr amgylchedd, yn dathlu gorffennol a phresennol y ddinas ac yn cyfrannu at ei chymeriad arbennig.

1.5 Mae'r Strategaeth hon yn egluro cyfrifoldebau, yn darlunio'r prosesau sydd ynghlwm â datblygu celf cyhoeddus ac yn dangos y ffordd ymlaen i'r rhai hynny sydd yn ymwneud â chyflenwi celf cyhoeddus. Gan weithio ar y cyd ag artistiaid, y gymuned, busnesau, cyfun gyrff, unigolion a phartneriaid yn y sectorau preifat a chyhoeddus, mae yma gyfle aruthrol i gyflwyno ffurfiau newydd ysbrydoledig ac arloesol o gelf cyhoeddus ac mae'r Cyngor yn dymuno bod ar y blaen yn y fenter hon.

Amcanion y Strategaeth Celf Cyhoeddus

1.6 Mae'r strategaeth yn anelu at:

- Ddiffinio, hybu a sicrhau cyflwyno celf cyhoeddus o ansawdd uchel yng Nghaerdydd
- Amlinellu'r polisïau a'r athroniaeth ar gyfer darpariaeth celf cyhoedus
- Egluro'r broses sydd ynghlwm â datblygu celf cyhoeddus
- Annog mentrau newydd a chyfleoedd ar gyfer celf cyhoeddus, oddi mewn ac oddi allan i'r broses ddatblygu
- Annog gweithio gyda phartneriaid ac ymrwymiad cymunedol wrth ddatblygu projec tau celf cyhoeddus
- Ysbrydoli a rhoi modd i fynegi syniadau'r unigolion a'r grwpiau sydd yn adlewyrchu bywyd yng Nghaerdydd
- Hybu integreiddiad cynnar celf cyhoeddus oddi mewn i gynigion datblygu
- Gwella rheolaeth dros a gofal am gelf cyhoeddus Caerdydd sydd yn

Etifeddiaeth

Cerflun Archddiacon Buckley
Lawnt y Gadeirlan, Llandaf
William Goscombe John, 1926

Cerflun o Godfrey, Is-iarll Cyntaf Tredegar
Gerddi'r Orsedd, Parc Cathays
William Goscombe John, 1909

Hunaniaeth Leol



Canolfan Mileniwm Cymru
Roald Dahl Plass, Bae Caerdydd
2005

bodoli eisoes a gwaith y dyfodol
- Gwella a hybu hygyrchedd y cyhoedd i wybo daeth am gelf cyhoeddus.

Budd Celf Cyhoeddus

1.7 Gall celf cyhoeddus harddu'r amgylchedd, gan gyfrannu at bob agwedd ar gynllunio dinesig, o gelfi a phalmantau'r stryd i gynllunio adeiladau a thirlunio. Gyda mewnbwn cymunedol, gellir ei ddefnyddio'n effeithiol i:

- Harddu'r amgylchedd, gan wneud gwahaniaeth go iawn i ansawdd bywyd y trigolion
- Cynorthwyo adfywiad drwy ddatblygu hunaniaeth bositif i ardal a gwella ei delwedd
- Annog pobl i roi gwerth ar eu hamgylchedd, gan gyfrannu at leihad mewn fandaliaeth ac ofn trosedd a chreu amgylchedd mwyiach, mwy diogel a chynaliadwy.

1.8 Gall celf cyhoeddus gyfrannu at gymeriad a hunaniaeth ardal a chynorthwyo eglurdeb drwy:
- Greu tirnodau sydd yn cynnig pwyntiau
cyfeirio a galluogi pobl i leoli eu hunain
- Diffinio ffyrdd a llwybrau
- Gwneud cysylltiadau rhwng lleoedd ac
eangderau
- Pwysleisio mynedfeydd, pyrth a chyffyrdd allweddol
- Creu cymeriad lleol a synnwyr o le.

1.9 Gall celf cyhoeddus hybu mewnfuddsoddiad drwy:

- Ddangos hyder cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd, a thrwy hynny annog buddsoddiad a thwf economaidd
- Rhoi ffocws a symbyliad ar gyfer twristiaeth
- Cyfrannu at yr economi leol drwy greu cyfleoedd gwaith i artistiaid lleol, crefftwyr a busnesau perthynol.

1.10 Gall datblygu projectau celf cyhoeddus lle
gall pobl leol weithio gydag artistiaid i wella
eu hamgylchedd eu hunain helpu drwy:

- Hybu cynhwysiad cymdeithasol
- Datblygu synnwyr pobl o berchnogaeth o'u hamgylchedd
- Creu synnwyr o hunaniaeth leol a balchder cymunedol
- Cryfhau synnwyr o gymuned a hybu cydlyniad cymdeithasol
- Datblygu diddordeb pobl mewn, a'u deallt wriaeth o, gelf cyhoeddus
- Datblygu creadigrwydd pobl, estyn eu sgiliau cymdeithasol a'u hunan hyder.

1.11 Mae casgliad Caerdydd o gelf cyhoeddus eisoes yn ychwanegiad arwyddocaol at ddar
pariaeth ddiwylliannol y ddinas, a all:

- Gyfoethogi bywyd diwylliannol y ddinas
- Datblygu proffil diwylliannol y ddinas yn genedlaethol ac yn rhyngwladol
- Datblygu balchder dinesig a helpu creu 'del wedd' arbennig i Gaerdydd
- Helpu cofnodi hanes Caerdydd a Chymru.

Ardal y Strategaeth

1.12 Mae'r Strategaeth Celf Cyhoeddus yn berthnasol i Ddinas a Sir Caerdydd

Mynedfeydd Pwysleisiol

Mynedfa Parc y Gamlas
Stryd James, Butetown
Martin Williams, 1994

Prosiectau Cymunedol

Y Bont Ddu
Rhodfa'r Rheilffordd, Adamsdown
2004

Siopau High Corner
Pentyrch
2004

yn ei gyfanrwydd, o Fynydd Caerffili yn y gogledd i'r ffiniau gyda Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg yn y gorllewin, Casnewydd yn y dwyrain a'r morglawdd ym Mae Caerdydd yn y de.

1.13 Oddi mewn i'r ffiniau hyn, bydd y Strategaeth yn ystyried pob cyfle ar gyfer gelf cyhoeddus, o ddatblygu cynlluniau, projectau adfywio a chynlluniau gwella, drwodd i fentrau cyhoeddus a phreifat, rhoddion oddi wrth gyrff, grwpiau cymunedol ac unigolion.

1.14 Dylai'r Strategaeth helpu meithrin cysylltiadau a rhyngweithio rhwng ardaloedd ar draws y ddinas, o'r prif fynedfeydd i Gaerdydd ar y ffyrdd, y rheilffyrdd a'r dŵr, i safleoedd strategol a nodau allweddol a chyfnewidfeydd o fewn y ddinas, i lefel y cerddwr yn y cymunedau lleol, canol y ddinas a Bae Caerdydd.

Ymgynghoriad Cyhoeddus

1.15 Mae datblygiad y Strategaeth Celf Cyhoeddus wedi ei wneud mewn dwy ran: yn gyntaf, gwnaed adolygiad o'r celf cyhoeddus oedd eisoes yn bodoli oddi mewn i Gaerdydd, gan ffocysu ar weithiau celf a'u dosbarthiad ar draws y ddinas. Adolygwyd swyddogaeth botensial y Cyngor wrth sicrhau, wrth weithredu, rheoli a monitro celf cyhoeddus.

1.16 Ar sail canlyniadau'r gwaith hwn, cynhyrchwyd papur gwyrdd fel dogfen ymgynghori cyhoeddus. Gofynnodd Papur Gwyrdd Celf Cyhoeddus lawer o gwestiynau ar nifer o faterion penodol lle roedd angen safbwyntiau a barn. Cafodd y ddogfen ei dosbarthu at y partneriaid perthnasol i gyd, at y budd-ddeiliaid a phartïon oedd yn ymddiddori yn ogystal â chyhoeddi'r cyhoeddiad ar wefan y Cyngor. Cafodd yr atebion a dderbyniwyd eu hystyried wrth greu Strategaeth Celf Cyhoeddus Caerdydd.



Dinas a Sir Caerdydd

Fflach Las, Blwch Egni a Sglodion Meinwe
Stryd Tyndall
John Gingell, 1994

2. Dinas a Sir Caerdydd

Etifeddiaeth Caerdydd

2.1 Prifddinas Ewropeaidd sydd yn tyfu'n gyflym yw Caerdydd ac sydd â hanes yn ymestyn yn ôl i gyfnod y Rhufeiniaid. Yn 1905 cafodd Caerdydd statws dinas ac yn 1955 cafodd ei gwneud yn brifddinas Cymru; byddwn yn dathlu'r ddau ddigwyddiad hyn yn 2005. Yn ail ran y bedwaredd ganrif ar bymtheg dechreuodd Caerdydd dyfu'n hynod o gyflym, gyda'r cloddio am lo yn y cymoedd a'i allforio o ddociau Caerdydd. Ochr yn ochr â'r ffyniant economaidd a'r twf yn y boblogaeth daeth twf corfforol Caerdydd a'r darnau o gelf a ddaeth i sylw'r cyhoedd.

2.2 Roedd gosod celf ar adeiladau yn arbennig o boblogaidd rhwng yr 1870au a'r Rhyfel Byd Cyntaf a gyda datblygiad y Ganolfan Ddinesig ar droad yr ugeinfed ganrif, gwelwyd gweithiai celf yn rhan annatod o Neuadd y Ddinas, y Llysoedd Barn a hen Neuadd Sir Morgannwg. Mae'r Hen Lyfrgell yn yr Ais ac Adeilad Pen Pier ym Mae Caerdydd yn enghreifftiau gwych o adeiladau gyda manylion addurniadol.

2.3 Roedd y gweithiai celf annibynnol ar ffurf cofebion, gweithio coffaol a cherfluniau yn cynrychioli ffigyrau blaenllaw a digwyddiadau mewn hanes sydd bellach yn ffurfio rhan o wead y Ddinas, yn enwedig o gwmpas y Ganolfan Ddinesig ym Mharc Cathays ac mewn parciau eraill megis Parc y Rhath a Pharc Buddug. Nid yn unig oedd y gweithiau hyn wedi eu cyfyngu i safleoedd allanol ond roedden nhw hefyd wedi eu hymgorffori y tu mewn i adeiladau cyhoeddus, gan gynnwys y Neuadd Farmor yn Neuadd y Ddinas sydd yn cynnwys cyfres o gerfluniau a ddadorchuddiwyd yn 1916. Mae Mur yr Anifeiliaid yng Nghastell Caerdydd yn cynrychioli enghraifft gynnar o weithfeydd coffaol yn ychwanegu gwerth a hynodrwydd i ansawdd mannau agored.

2.4 Parhaodd y traddodiadau hyn drwy'r rhan fwyaf o ganol yr ugeinfed ganrif tan i Gaerdydd, yn hwyr yn yr 1980au a dechrau'r 1990au afael yn y fenter o ychwanegu'n sylweddol ar ei bortffolio celf cyhoeddus drwy adfywio glan y dŵr. Comisiynodd Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd Strategaeth Celf Cyhoeddus ym Mae Caerdydd a weithredwyd gan Ymddiriedolaeth Celf Bae Caerdydd. Cefnogwyd y broses o sicrhau gweithiau celf drwy bolisi gweithredol 'Canran ar gyfer Celf' ar gyfer projectau yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat; y canlyniad yw rhaglen arobryn o weithiai celf cyhoeddus.

2.5 Mae'r broses o gomisiynu gweithiau celf yn y ddinas wedi parhau, gydag artistiaid yn rhan o lawer menter proffil uchel. Mae'r Llys Ynadon, Arena Ryngwladol Caerdydd, Lôn y Felin, Sgwâr Callaghan, Y Sgwâr Canolog a Chanolfan Mileniwm Cymru oll wedi defnyddio artistiaid gan ychwanegu gwerth a hynodrwydd i'r datblygiadau.

2.6 Yn ogystal â hyn, mae llawer o grwpiau cymunedol wedi ymddiddori fwyfwy mewn gweithiau celf mwy lleol,

Celf ar Adeiladau

Cerflun o Ferch Roegaidd
Prince of Wales, Heol Fair
Circa 1920

Bust of Pallas Athena
Yr Hen Lyfrgell
Yr Aes, Canol y Ddinas
Circa 1880-1896

Cerflun Trydydd Ardalydd Bute
Gerddi'r Brodyr, Cathays
P. Macgillivray, 1930

Cofeb Ryfel Llandaf
Lawnt y Gadeirlan, Llandaf
William Goscombe John, 1924

Gweithiau Celf Ddiweddar

Awen
Coleg Cerdd a Drama Cymru, Ffordd y Gogledd
Charles I'Anson, 1975

O'r Pyll i'r Porthladd
Cei Britannia
John Clinch, 2005

gan adlewyrchu a dathlu agweddau o amrywiaeth diwylliannol a chymunedol cyfoethog Caerdydd.

Celf Cyhoeddus yng Nghaerdydd Heddiw

2.7 Wrth i Gaerdydd ddatblygu, felly hefyd y tapestri cyfoethog o weithiau celf cyhoeddus a chymuned artistig gref, o Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Cymru i orielau celf lleol, adrannau celf y brifysgol, canolfannau celf, llyfrgelloedd, stiwdios, grwpiau celf, gweithdai ac asiantaethau celf.

2.8 Oddi mewn i'r gymuned hon, mae gan Gaerdydd ddwy brif asiantaeth gelf; CBAT: Yr Asiantaeth Gelf ac Adfywio a Cywaith Cymru · Artworks Wales sydd yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth, y sector preifat, grwpiau amgylcheddol a chymunedol, ysgolion, colegau a chyrff celfyddydol ac yn annog cydweithio creadigol.

Swyddogaeth y Cyngor

2.9 Mae'r Cyngor yn weithredol yn natblygiad y rhan fwyaf o agweddau ar gelf cyhoeddus. O'r rheolaeth a'r cynnal a chadw ar lawer o'r gweithiai celf hanesyddol a chyfoes dros y ddinas, gan gynnwys lleoliadau dinesig sydd yn gartref i ac yn arddangos nifer o weithfeydd celf oddi mewn; i ymgorfforiad celf cyhoeddus mewn cynlluniau datblygu ac adfywio, o welliannau amgylcheddol i brif brojectau a datblygiad a gweithredu projectau celf cymunedol, digwyddiadau a rhaglenni addysgiadol.

2.10 Mae'r Strategaeth Celf Cyhoeddus yn cwmpasu nifer o Wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys Cynllunio Strategol ac Adfywiad Cymdogaethau, Marchnata a Thwristiaeth, Priffyrdd a Pharciau, Hamdden ac Addysg Gydol Oes, Gwasanaethau Ysgolion a Gwasanaethau Rheoleiddio. Mae'n anelu at ddatblygu agwedd gynhwysol a chyd gysylltiedig at gyflenwi celf cyhoeddus yng Nghaerdydd.

2.11 Mae'r Strategaeth hon yn eistedd oddi mewn i fframwaith o bolisïau, cynlluniau a strategaethau corfforaethol eraill sy'n gweithio ar y cyd i gyflenwi amcanion strategaethau'r Cyngor.

Nodweddion Dŵr

Nodwedd Ddŵr Sgwâr Landsea
Cei'r Forforwyn, Bae Caerdydd
2000

Nodwedd Ddŵr
Mynedfa i Roald Dahl Plass, Bae Caerdydd

Rheiliau

Barrau
Lôn y Felin, Canol y Ddinas
Diane Maclean, 1995

Cei'r Anturwyr
Basn y Rhath, Bae Caerdydd
David Mackie ac Andrew Rowe, 1999

3. Arweiniad Ar Gelf Cyhoeddus

3.1 Mae cefnogaeth gref i gelf cyhoeddus gan gyrff cenedlaethol ar draws y wlad, gan gynnwys Asiantaeth Ddatblygu Cymru, y Comisiwn Dylunio Cymru a Bwrdd Croeso Cymru sydd a'i Strategaeth Twristiaeth Diwylliannol yn cydnabod:

"Mae amgylchedd o safon uchel nid yn unig yn cefnogi twristiaeth ond hefyd yn cynnig lle da i fyw, i weithio ac i chwarae ynddo ac yn ei wneud yn lle deniadol i fuddsoddi ynddo. Mae hyn yn galw am ... fentrau celf cyhoeddus o ansawdd uchel fel yr hyn a geir ym Mae Caerdydd."

3.2 Mae Strategaeth Ddiwylliannol Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Dyfodol Creadigol' yn datgan:

"Mae angen am gydnabyddiaeth ehangach o lawer o'r rhan y gall celf cyhoeddus chwarae nid yn unig wrth greu mannau cyhoeddus harddach a mwy diogel, ond hefyd wrth gyfrannu at adfywiad cymunedau."

Polisi Cynllunio Cenedlaethol

3.3 Anogir datblygiad ac integreiddiad celf cyhoeddus yn frwd drwy fframwaith y polisi cynllunio. Mae Polisi Cynllunio Cymru (2002) yn amlygu pwysigrwydd cynllunio da mewn datblygiad newydd ac yn hybu cyflenwi celf cyhoeddus drwy Nodyn Cyngor Technegol 12: Cynllunio, lle cydnabyddir:

"Gall celf cyhoeddus chwarae rhan bwysig wrth greu neu hyrwyddo unigoliaeth a chodi proffil ein trefi, pentrefi a'n tirlun. Gall ffocysu celf cyhoeddus mewn lleoliadau allweddol, mewn cyffyrdd pwysig, mannau cyfarfod neu fynedfeydd harddu nodweddion trefol sydd yn bodoli eisoes a helpu eglurdeb yr ardal honno. Mae cryn gyfle ar gyfer integreiddio celf cyhoeddus i dirlun trefol, gan amrywio o'r dramatig i'r cynnil, o gerflun tirnod traddodiadol a saif ar ei ben ei hun i gynllunio beiddgar ar wrthrychau ymarferol. Drwy ddewis lleoliad yn ofalus a thrwy ddefnyddio deunyddiau cyffyrddadwy, gall a dylai celf cyhoeddus fod yn hygyrch i bawb. Fwyfwy, defnyddir cynllunio llawn dychymyg o ofod llawr, barrau, goleuo ac arwyddion i bersonoli gwrthrychau bob dydd."

3.4 Cydnabyddir hefyd:

"Dylid ystyried celf cyhoeddus yn gynnar yn y broses gynllunio a dylai fod yn rhan gyfannol o gynllunio adeilad, man neu le cyhoeddus. Dylai'r dewis o waith celf fod yn destun trafodaeth lawn o'r cychwyn rhwng yr artist, y gymuned leol a'r bobl broffesiynol sydd yn rhan o'r broses gynllunio. Mae ennyn synnwyr o berchnogaeth leol a chyfrifoldeb cyhoeddus am waith celf yn hanfodol i lwyddiant tymor hir projectau celf cyhoeddus."

Polisi'r Cyngor

3.5 Yn ei Strategaeth Gymunedol mae'r

[1] Cultural Tourism Strategy for Wales (Wales Tourist Board)
[2] A Cultural Strategy for Wales: Creative Future (Welsh Assembly Government)
[3] Planning Policy Wales, Technical Advice Note 12: Design (Welsh Assembly Government)
[4] Planning Policy Wales, Technical Advice Note 12: Design (Welsh Assembly Government)

Gwrthrychau sy'n Gweithio

Map o Landaf
Stryd Fawr, Llandaf
Angela Davies, 1981

Rhwyllau Stryd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Stryd Pen Pier
Alan Evans, 1993

Ceiliog y Gwynt ar Long Fasnach
Bwyty Woods, Stryd Stuart
Andy Hazell, 1997

Cyngor wedi gosod allan ei weledigaeth tymor hir ar gyfer Caerdydd. Mae'n cynrychioli agenda gyffredin ar gyfer Prifddinas Cymru ac yn cynnig fframwaith trosfwaol sydd yn cefnogi strategaethau, cynlluniau a mentrau allweddol eraill. Mae'r Strategaeth Gymunedol (2004 i 2014) yn datgan:

"Ein bwriad yw gwneud Caerdydd yn ddinas gyfannedd gyda strydoedd glân, parciau da, mynediad hawdd i gefn gwlad, pensaernïaeth drawiadol, celf cyhoeddus o ansawdd uchel a glan y dŵr nodedig."

3.6 Mae Strategaeth Celf Cyhoeddus Caerdydd yn ategu 'Strategaeth Celf' mwy eang y Cyngor, a gynhyrchwyd yn 1998. Yn ôl Adran 4, bwriad strategol Celf mewn Mannau Cyhoeddus yw:

"Gwella'r amgylchedd dinesig drwy gomisiynu celf a chrefftwaith o ansawdd da i gyfoethogi ein hamgylchedd."

3.7 Cydnabyddir darparu celf cyhoeddus hefyd yng Nghynllun Lleol Dinas Caerdydd, a fabwysiadwyd yn Ionawr 1996. Yn Adran 4.6 'Rheolaeth a Safonau Esthetig' dywedir :

"Lle bo'n addas, bydd Cyngor y Ddinas hefyd yn ceisio cyflawni, drwy ennill hawl cynllunio, budd cymdeithasol neu gymunedol perthnasol i anghenion y gymdogaeth. Bydd 'gwelliant cynllunio' o'r math hwn yn amrywio yn ôl graddfa, lleoliad a math o gais cynllunio, a gallai gynnwys darparu ...'canran ar gyfer celf'... lle bo'n gymwys."

3.8 Mae Cynllun Datblygiad Unedol y Cyngor (2001 - 2006) a osodwyd i lawr yn cynnwys polisi penodol perthnasol i gelf cyhoeddus. Dywed 2.56 o Bolisi CUD:

"Ymdrechir i gael hyd i gelf cyhoeddus fydd yn harddu cymeriad a golwg datblygiadau a mannau cyhoeddus."

3.9 Mae Strategaeth Celf Cyhoeddus Caerdydd yn tynnu ynghyd ac yn adeiladu ar y fframwaith polisi hwn.

3.10 Y bwriad yw datblygu a chyfoethogi hyn ymhellach drwy baratoi Arweiniad Cynllunio Atodol. Bydd hyn yn rhoi arweiniad manwl i ofynion y Cyngor ar gyfer cyflwyno gweithiau celf fydd yn codi'n benodol o'r broses ddatblygu.

[5] Cardiff Community Strategy 2004-2014 (Cardiff County Council)
[6] Arts Strategy (Cardiff County Council)
[7] City of Cardiff Local Plan, January 1996 (Cardiff County Council)
[8] Cardiff Unitary Development Plan (to 2016) Deposited Written Statement, October 2003 (Cardiff County Council)

Celf Gyhoeddus yn Bae Caerdydd

Llif y Gylfinirod
Gwesty a Sba Dewi Sant, Stryd Havannah
Sally Matthews, 2000

Cylch Celtaidd
Roald Dahl Plass, Bae Caerdydd
Harvey Hood, 1993

Pobl Fel Ni
Cei'r Forforwyn, Bae Caerdydd
John Clinch, 1993

4. Diffiniadau O Gelf Cyhoeddus

4.1 Heddiw, mae celf cyhoeddus wedi datblygu i gynnwys nid yn unig cerfluniau a gweithiau parhaol eraill ond hefyd gwyliau, perfformiadau a ffurfiau celf dros dro eraill. Mae'r gweithiau celf yng ngafael y cyhoedd yn amrywiol mewn ffurf a phwrpas ac mae ymarfer cyfoes yn sicrhau bod tueddiadau yn newid yn gyflym.

4.2 Mae amrywiaeth eang y ffurfiau wedi ei gwneud yn fwy anodd diffinio beth ellir neu na ellir ei gyfrif fel 'celf'. Fodd bynnag, mae'n bosibl ac yn hanfodol creu diffiniadau o beth ellir ei weld fel darn o neu gynllun 'celf cyhoeddus'.

Diffiniadau o Gelf Cyhoeddus

4.3 I bwrpas y Strategaeth hon, ystyrir bod celf cyhoeddus yn cynnwys:

Gweithiau celf tri dimensiwn, yn cynnwys:

Cerflunwaith penodol i'r safle
Nodweddion dŵr
Gweithiau symudol
Pyrth a thirnodau
Cerflunwaith cofebion
Celfyddyd sydd yn rhan o'r tir.

Gweithiau cofiannol, yn cynnwys:

Cofebion
Arysgrifau
Llechfeini.

Celfi stryd, yn cynnwys:

Ffensys a gynlluniwyd gan artist, rheiliau, sgriniau diogelwch, arwyddion, nodwyr, palmentydd, rhwyllau coed, seddi, goleuadau, bolardiau, biniau sbwriel a blychau cyswllt.

Gwaith integredig dau a thri dimensiwn, yn cynnwys:

Gwydro a gynlluniwyd gan artist, lloriau, gorchuddion a chelfi drysau
Paentiadau /trompe l'oeil
Brithwaith/cerameg
Murluniau
Gweithiai a seiliwyd ar eiriau.

Comisiynau mewnol mewn adeiladau sydd yn hygyrch i'r cyhoedd, yn cynnwys:

Celf a chrefft cain cymhwysol
Cerflunwaith
Gwydr pensaernïol
Tecstilau
Ffotograffiaeth
Printiau
Trin lloriau
Darpariaeth ar archeb.

Comisiynau dros dro neu ddibynnol ar amser, yn cynnwys:

Arddangosfeydd
Celf digidol
Ffotograffiaeth
Cyfryngau clywedol
Gweithiau a seiliwyd ar eiriau
Hysbysfyrddau
Celfyddydau perfformio.

4.4 O'r enghreifftiau a nodwyd, mae'n glir y gall celf cyhoeddus gynnwys gweithiau celf parhaol, projectau a digwyddiadau dros dro i weithiau celf sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain a gweithiau sydd wedi

Gweithiau Celf Tri Dimensiwn

Cwlwm Rhaff
Gwesty a Sba Dewi Sant, Stryd Havannah
Andrew Rowe, 2000

Gweithiau Cofiannol

Cofeb Ryfel Masnachlongwyr
Gyferbyn ag Adeilad Pen Pier, Bae Caerdydd
Brian Fell, 1996

Dodrefn y Stryd

Rhwyllau Coed
Lôn y Felin, Canol y Ddinas
1995

Gwaith Integredig

Celfi Drws
Canolfan Mileniwm Cymru,
Bae Caerdydd, 2005

Comisiynau Mewnol

Cerflun Gareth Edwards
Canolfan Dewi Sant, Canol y Ddinas
Bonar Dunlop, 1982

Comisiynau Dros Dro

Hysbysfyrddau Safle
Canolfan Siopa Arcêd y Frenhines,
Heol-y-Frenhines
Pippinsdesigns, 2005

eu hintegreiddio mewn cynllun datblygiad. Gall y gwaith celf fod yn gynnyrch artist unigol, artist sy'n gweithio gyda'r gymuned neu ganlyniad cydweithio rhwng artistiaid a phenseiri, peirianwyr, cynllunwyr neu grwpiau eraill.

Yng Ngafael y Cyhoedd

4.5 Beth bynnag fo union ddiffiniad y gwaith celf mae'n hanfodol bwysig ei fod yn cael ei osod 'yng ngafael y cyhoedd' ac yn hollol hygyrch iddynt er mwyn bod yn gymwys fel darn o gelf cyhoeddus.

4.6 I bwrpas y Strategaeth hon, dylid ystyried bod gafael y cyhoedd yn cynnwys:

- Mannau lle bo hawl i'r cyhoedd gael mynediad ar unrhyw adeg, gan gynnwys: Ffyrdd cyhoeddus a llwybrau, sgwariau, llwybrau troed, tir comin, dyfrffyrdd a thraciau seiclo

- Mannau sy'n cael eu rheoli ac sydd â threfniadau mynediad penodol ond sydd yn y bôn yn 'gyhoeddus' o ran natur, gan gynnwys: Parciau a gerddi, canolfannau siopa, buarthau chwarae ysgolion, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, mwynderau cyhoeddus ac adeiladau sydd mewn perchnogaeth breifat a lleoedd sydd yn hygyrch yn gorfforol neu'n weledol i'r cyhoedd, gan gynnwys ffasadau adeiladau

- Llwyfannau gwybodaeth a chyfryngau, gan gynnwys: Hysbysfyrddau, bysiau, cysgod fannau bysiau, y cyfryngau print a darlledu a'r rhyngrwyd.

4.7 Dylid nodi nad yw celf cyhoeddus gan amlaf yn cynnwys gweithiau sydd yn cael eu harddangos mewn orielau pwrpasol nac amgueddfeydd.

Meini prawf hanfodol ar gyfer diffinio Celf Cyhoeddus

4.8 Mae yn bwysig i'r rhai hynny sydd ynghlwm â datblygiad mentrau newydd fod yn glir o'r dechrau am y meini prawf y bydd yn rhaid eu hystyried wrth gomisiynu a datblygu celf cyhoeddus. Dyma nhw:

- Gwaith gwreiddiol artist neu grefftwr byw neu gydnabyddedig, sydd yn hygyrch yn gorfforol neu yn weledol i'r cyhoedd ac a ellir ei greu drwy broses o gydweithio gyda grwpiau eraill, megis penseiri, peirianwyr, cynllunwyr neu aelodau o'r gymuned leol.

- Gwaith sydd yn benodol berthnasol i'r safle ac nid yn wrthrych wedi ei fasgynhyrchu nac yn atgynhyrchiad o waith celf gwreiddiol neu gynllun cynt nas gwireddwyd.

- Gwaith sydd yn berthnasol o ran amser a lle i Gaerdydd ac i hunaniaeth unigryw'r ddinas a'i synnwyr arbennig o le.

Rhoddion a chyfraniadau

4.9 O bryd i'w gilydd, bydd y Cyngor yn derbyn gweithiau celf cyhoeddus ar ffurf rhodd neu gyfraniad nad ydynt yn cwrdd â'r meini prawf a nodwyd uchod. Yn yr achosion hyn bydd pob project yn cael ei ystyried yn unigol ar ei haeddiant yn erbyn cefndir y rhodd a dylid ystyried yr anghenion penodol, cyfyngiadau, amodau a defnydd tymor hir y safle arfaethedig a'i ddefnyddwyr.

Mannau Rheoledig, chyhoeddus

Pigeon Wave
Neuadd Ymgynnull, Gorsaf Caerdydd Canolog
Martin Smith, 2003

Mynediad ar Unrhyw Adeg

Nereid
Adeilad y Brodyr, Ffordd y Brenin
Nathan David, 1996

Cysylltiadau Mud
Parc Cymunedol Grangemore, Ferry Road
Ian Randall, 2000

Gweledol

Undeb y Gweithwyr Siopau, Dosbarthu
a Gwaith Perthynol
Rhodfa'r Gadeirlan, Canol y Ddinas

Cadeirlan Llandaf
Lawnt y Gadeirlan, Llandaf

5. Cyfleoedd Celf Cyhoeddus

5.1 Gall celf cyhoeddus harddu ac ychwanegu gwerth i amgylchedd, gan gyfrannu at bob agwedd o gynllunio, o gelfi stryd i balmantau a thirlun. Yn rhan o unrhyw ofod hygyrch i neu'n weladwy i'r cyhoedd, gall celf cyhoeddus gyfrannu tuag at ansawdd a chynllun ardal neu ddatblygiad, gan greu cymeriad lleol i'r trigolion, gweithwyr ac ymwelwyr â'r ddinas.

5.2 Drwy ymgorfforiad ag eitemau defnyddiol, er enghraifft goleuadau, rheiliau i gerddwyr a rampiau mynediad, gall celf cyhoeddus ffurfio arf gwerthfawr i anghenion ardal neu'r amgylchedd o gwmpas a dylid ystyried y ffactorau hyn wrth asesu cyfleoedd ar gyfer mentrau celf cyhoeddus.

5.3 Mae'r Cyngor yn annog comisiynu gweithiau celf beiddgar sydd yn ymateb yn benodol i'r safle. Dylai celf cyhoeddus ffurfio rhan o gynllun gweledigaeth gyflawn, gyda chysyniadau yn rhan gyfannol o adeilad neu ardal.

5.4 Mae graddfa ac amrywiaeth celf cyhoeddus yn golygu bod lleoliadau posibl ar gyfer projectau a mentrau'r dyfodol mor eang ag yw dychymyg artistiaid a chomisiynwyr yn caniatáu. Mae'r bennod hon yn ceisio ysgogi ysbrydoliaeth comisiynwyr, artistiaid a grwpiau cymunedol dros ddarparu arweiniad i leoliadau addas ar gyfer gweithiau celf y dyfodol ac awgrymu themâu posibl.

Pyrth

5.5 Safleoedd sydd yn pwysleisio mannu mynediad i Gaerdydd ac yn creu'r synnwyr o fod wedi cyrraedd, gan gynnwys:

- Ffyrdd – Traffordd yr M4, A470, A48
- Coridorau Rheilffyrdd - Llundain i Abertawe a Rheilffyrdd y Cymoedd
- Dŵr – Bae Caerdydd a'r Morglawdd

5.6 Mynedfeydd i ganol y Ddinas a Chalon y Bae, gan gynnwys:

- Cyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus
- Pyrth cerbydau, beiciau a cherddwyr
- Cysylltwaith afonydd

Cysylltwaith a Themâu

5.7 I ganfod a neilltuoli defnydd allweddol o'r tir a chreu synnwyr o le, gan gynnwys:

- Isffyrdd
- Pontydd rheilffyrdd
- Celfi stryd
- Safleoedd trafnidiaeth gyhoeddus

Tirnodau

5.8 I ganfod a diffinio llwybrau, creu pwyntiau ffocysu a helpu cyfeiriadu.

Gwaith Celf Unionlin

5.9 I helpu cyfeiriadu a diffinio llwybrau, gan gynnwys: Rhwydweithiau ffyrdd sylfaenol, ffyrdd i gerddwyr a beicwyr, coridorau afonydd a rheilffyrdd.

Cymunedau Lleol

5.10 I greu cymeriad a chynnig cyfle i gymuned ddatgan ei hun, drwy wella amgylcheddau sydd yn bodoli eisoes, gan gynnwys:

Pyrth

Porth Caerdydd
Arglawdd y Rheilffordd, Adamsdown
Jane Kelly, 1997

Cader Idris
Sgwâr Canolog, Gorsaf Caerdydd Canolog
William Pye, 1999

Gwaith Celf Unionlin

Lampau Coesau Hir
Cei Britannia, Bae Caerdydd
Tess Jaray a Tom Lomax, 1994

Tirnodau

Gorsaf Gyfrinachol
Ffordd Rover
Ellis O'Connell, 1992

Cysylltwaith a Themâu

Mynegbost Milltir Rhwydwaith Cenedlaethol
Ledled Caerdydd (Enghraifft o Barc Bute)
Jon Mills

- Canolfannau Ardal, Lleol a Chymdogaethau
- Parciau, mannau cyhoeddus ac ardaloedd hamdden
- Projectau cymdogaethau a chymunedol oddi mewn i wardiau lleol.

Lleoliadau ar gyfer Gweithiau Celf Dros Dro

5.11 Safleoedd sydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer gwyliau, digwyddiadau a lleoliadau ar gyfer gweithiau celf dros dro gan gynnwys:

- Adeiladau cyhoeddus a phreifat a mannau perthynol
- Parciau a mannau cyhoeddus
- Safleoedd hysbysfyrddau.

Lleoliadau ar gyfer Gweithiau Celf y Tu Mewn

5.12 Safleoedd sydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer comisiynau y tu mewn a gweithiau celf cymunedol gan gynnwys:

- Ysgolion
- Adnoddau cymunedol
- Ysbytai, adeiladau'r llywodraeth a chyrff eraill
- Adeiladau preifat yng ngafael y cyhoedd
- Adeiladau cyhoeddus.

Safleoedd Datblygu ac Amgylcheddau sy'n Bodoli

5.13 Safleoedd sydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer projectau celf cyhoeddus ar y cyd oddi mewn i ffiniau lleoliad wedi ei ddiffinio, gan gynnwys:

- Ardaloedd tirlun
- Tir ar gyfer rheoli gwastraff
- Defnyddio tir diwydiannol
- Defnydd chwaraeon, adloniant a hamdden
- Safleoedd iechyd
- Parciau mân-werthu
- Swyddfeydd
- Safleoedd adfywiad
- Mannau agored.

Gwaith Celf Synhwyraidd

5.14 Mae gweithiau Celf Cyhoeddus yn ôl eu natur yn cynnig ystod eang o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ymhlith y cyhoedd ac yn creu cyfle gwerthfawr i hybu ymwybyddiaeth synhwyraidd. Ceir un enghraifft yn y Map Tirwedd a welir yn Roald Dahl Plass ym Mae Caerdydd. Mae yn dangos taith Llwybr y Taf o Fae Caerdydd i Aberhonddu ac yn cynnwys dehongliad Braille.

Rhaglenni Addysg

5.15 Gall projectau celf cyhoeddus greu amrywiaeth o gyfleoedd addysgol; un enghraifft yw 'Breathing in, Time out' gan artist o'r Iseldiroedd, Jeroen van Westen ar safle Lamby Way.

5.16 Mae project Lamby Way a ddechreuwyd yn 2001 wedi creu ffocws a fframwaith ar gyfer gweithgarwch addysgol tymor hir ac ymchwil ac mae'r gwaith corfforol ar y safle yn adnodd addysgol gwerthfawr sydd yn golygu bod ysgolion yn trafod materion yngl n â rheoli gwastraff, daearyddiaeth a pheirianwaith.

5.17 Dylai'r cyfleoedd addysgol sydd yn deillio o gelf cyhoeddus ystyried y siawns o gael ysgolion ac unigolion i gymryd rhan, gan gynnwys: grwpiau cymunedol lleol; grwpiau gydag anghenion arbennig; ysgolion lleol; cyrff ieuenctid a grwpiau amgylcheddol.

5.18 Yn Ysgol Kitchener yng Nglan yr Afon, crëwyd murlun brithwaith ar raddfa fawr ar adeilad yr ysgol gyda'r thema: 'Rydyn ni i gyd yn byw gyda'n gilydd yng Nglan yr Afon. Cafodd ei gynllunio a'i greu gan blant yr ysgol dan arolygaeth grŵp Celf yr Arloeswyr.

Cymunedau Lleol

Stryd Angelina
Butetown
Ray Smith 2004

Temporary Artworks

Y Ddraig ar ei Thraed
Gardd Orffwys Sant Ioan, Stryd
Working
2004

Geithiau Celf y Tu Mewn

Gwydr Lliw Stuttgart
Neuadd Dewi Sant, Yr Aes
Yr Athro Hans Gottfried Von Stockhausen, 1985

Safleodd Datblygu

Yr Wy Mawr
Cwrt Henke, Ffordd Schooner
Rachel Joynt

Ymwybyddiaeth Synhwyraidd

Map tirwedd Llwybr y Taf
Gyferbyn ag Adeilad Pen Pier, Bae Caerdydd
1996

Rhaglenni Addysg

Murlun Brithwaith Ysgol Ffordd Kitchener
Ffordd Kitchener

6. Datblygu Cynnig Gwaith Celf

6.1 Defnyddir sawl dull o osod gweithiau celf cyhoeddus yn eu lle yng Nghaerdydd, o weithiau celf ar-safle ac oddi-ar-safle a gomisiynir gan ddatblygwyr, i grwpiau a chyrff sydd yn ymgymryd â digwyddiadau gweithiau celf a phrojectau yng ngafael cyhoedd a darnau o waith celf cyhoeddus yn cael eu rhoi i'r cyngor gan gyrff a chymwynaswyr.

6.2 Mae'r rhychwant eang o'r hyn a ystyrir fel celf cyhoeddus yn golygu y gall unrhyw broject gynnwys amrywiaeth o grwpiau ac unigolion, pob un o gefndir proffesiynol gwahanol, gyda lefelau profiad gwahanol a dulliau gwahanol o weithio. Am y rhesymau hyn mae datblygiad llwyddiannus unrhyw broject celf yn ddibynnol ar sefydlu, o'r dechrau, proses gomisiynu wedi ei diffinio'n glir.

6.3 Yn y bennod hon ceir arweiniad i ddatblygwyr, unigolion, grwpiau a chyrff sydd yn rhan o ddatblygiad gweithiau celf cyhoeddus. Nid yw'n gyflawn o bell ffordd, ond y bwriad yw tanlinellu'r materion y dylid eu hystyried wrth weithredu project celf cyhoeddus.

Ystyriaethau Cynnar

6.4 Ar ddechrau'r project, y cwestiwn cyntaf y dylid ei ofyn yw 'beth ydyn ni am gyflawni?' a dylid neilltuo amser i ystyried rhesymeg y project a'r pynciau neu'r themâu sydd i'w harchwilio drwy ddatblygiad celf cyhoeddus.

6.5 Dylai cyfnod cyntaf y broses gomisiynu gynnwys datblygiad brîff i'r project pan fydd angen ateb nifer o gwestiynau allweddol, yn bennaf:

- Beth yw pwrpas y project? A fydd yn diffinio safle allweddol, yn cynorthwyo eglurdeb, yn hybu hanes Caerdydd, yn cynnwys y gymuned leol ac a/neu a fydd iddo ddefnydd ymarferol ?
- Pa fath o waith celf fyddai'n addas? Gwaith parhaol, gwaith dros dro neu gomisiwn amserol, comisiwn mewnol neu mewn adeilad hygyrch i'r cyhoedd?
- Beth fydd graddfa'r project? Tirnod/ nodwedd mewn porth; project cymunedol neu waith celf integredig ar raddfa fach, megis celfi drws wedi cynllunio gan artist?
- Ble mae lleoliad arfaethedig y gwaith celf a pha ganiatâd fydd ei angen i osod y gwaith celf ar y safle? A fydd wedi ei integreiddio mewn adeilad neu strwythur sydd yn bodoli eisoes, yn sefyll yn rhydd o fewn i ffiniau datblygiad, wedi ei leoli ar ffordd fawr neu mewn parc lleol?
- Pa grwpiau allweddol ac unigolion sydd yn debygol o fod â rhan ynddo? Rheolwr project, artist, asiantaeth gelf, corff sy'n gwneud penderfyniadau, cymuned leol, tirfeddianwyr?
- Beth yw amserlen y project? A fydd yn creu carreg filltir allweddol fel rhan o ddatblygiad project mwy o faint, neu a fydd angen ei orffen erbyn neu ar gyfer dyddiad arbennig neu ben-blwydd?

Mur yr Anifeiliad

Mur yr Anifeiliaid
Castell Caerdydd, Stryd y Castell
Thomas Nicolls ac Alexander Carrick, 1888 ac 1931

6.6 Mae'n angenrheidiol bod y ffiniau hyn mewn golwg gan y rhai hynny sydd yn dechrau'r project a'u bod wedi gwneud yr asesiadau risg angenrheidiol er mwyn dangos eu bwriad. Drwy wneud hyn byddir yn creu sylfaen er mwyn dechrau trafod gyda'r awdurdod lleol, asiantaethau celf a phartïon eraill a allai fod yn rhan o ddatblygiad y project.

6.7 O'r dechrau byddai angen i reolwr project ystyried sut bydd y cynllun yn cyfrannu tuag at y casgliad celf cyhoeddus sydd yn bodoli yng Nghaerdydd eisoes a bod y cynlluniau yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer diffinio celf cyhoeddus, fel y nodir ym mhennod 4.8.

6.8 Tra bod yr ystyriaethau cynnar yn berthnasol yn bennaf i ddatblygu cynlluniau celf cyhoeddus newydd, maent hefyd yn berthnasol i'r gweithiau celf sydd yn rhoddion ac i gyfraniadau ariannol. Dylai fod gan y rheolwr project syniad o sut mae'r cyfraniad fod i gyfrannu tuag at gelf cyhoeddus yng Nghaerdydd.

6.9 Argymhellir bod rheolwr y project yn siarad gyda'r Cyngor, yn gosod y cynlluniau ger bron a thrafod y ffordd ymlaen. Gallai pynciau i'w trafod gynnwys asesu addasrwydd ac ymarferoldeb cysyniadau dechreuol, safleoedd arfaethedig a chyngor yngl n â gweithredu'r project.

Cyllideb Project

6.10 Unwaith bod y ffiniau wedi eu sefydlu, dylid ystyried y gost sydd ynghlwm â datblygu gwaith celf a chyllideb y project. Bydd yn rhaid penderfynu ar gyllideb wrth wneud cais am arian o'r tu allan; bydd yn rhaid sefydlu dadansoddiad o wariant mewn achosion lle mae'r gyllideb wedi ei phennu eisoes er mwyn sicrhau bod y project gorffenedig o ansawdd uchel. Gallai methu sefydlu cyllideb realistig o'r dechrau olygu methu gorffen project.

6.11 Mae'r goblygiadau ariannol y dylid eu hystyried cyn datblygu project gwaith celf yn cynnwys:

- Ffioedd rheolaeth neu asiantaeth ac unrhyw gostau sydd yn ymhlyg â dewis artist
- Costau unrhyw brosesau ymgynghoriad
- Ffioedd cynlluniau gan artist a ffioedd comisiynu
- Treuliau gweithdai ac arddangosfeydd
- Costau gwaith celf, gan gynnwys deunyddiau / costau gwneuthuriad a gwaith partïon allanol (e.e. peirianwyr)
- Costau paratoi'r safle a gosod gwaith
- Costau yswiriant
- Sicrhau arian ar gyfer cynnal a chadw yn y dyfodol
- Cronfeydd achlysuron annisgwyl

Ffynonellau Cyllido

6.12 Mae nifer sylweddol o asiantaethau cenedlaethol a rhanbarthol y gellir gwneud cais drwyddynt ar gyfer cyllido projectau celf cyhoeddus, yn amrywio o grantiau ar raddfa fach i fentrau cyllido ar raddfa fawr. Un enghraifft yw Cyngor Celfyddydau Cymru, sydd â'u cynlluniau yn cynnig cyfle i gyrff celfyddydol ac unigolion yng Nghymru wneud cais am gyllid ar gyfer projectau celf wedi eu diffinio'n glir, trwy broses o gais gystadlu.

6.13 Mae enghreifftiau o ffynonellau cyllido yn cynnwys:

- Cyrff Cenedlaethol Cyllido Celf
- Cyllid y Loteri
- Cyllideb yr Undeb Ewropeaidd
- Gwobrau Nawdd
- Gwobrau Cystadlaethau
- Ymddiriedolaethau Preifat a Sefydliadau

6.14 Mae ffynonellau gwybodaeth ehangach yn cynnwys, www.publicartonline.org.uk sydd â rhestr gyflawn o gyrff cyllido sydd yn gweithredu o fewn y DU.

6.15 Pan fo celf cyhoeddus yn ffurfio rhan o gynnig datblygu dylid ystyried y cyfleoedd a gynigir drwy gyllido allanol yn ychwanegol at gyfraniad datblygwr ac nid yn gyfnewid.

Rhodfa'r Mileniwm

Rhodfa'r Mileniwm
Gyferbyn â Stadiwm y Mileniwm Stadiwm,
Canol y Ddinas

Caniatâd

6.16 Trwy'r broses reoli datblygu, bydd yr awdurdod lleol yn penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio i ddatblygiad.

6.17 Bydd rhai gweithiau celf yn ffurfio rhan o gais datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio tra bydd gweithiau celf eraill angen cyflwyno cais cynllunio yn eu hawl eu hunain. Mater yw i unigolion a chyrff, mewn trafodaethau gyda'r Cyngor, i asesu pa ganiatâd fydd ei angen.

6.18 Trwy'r broses reoli datblygu, ymgymerir ag ymgynghoriadau i benderfynu addasrwydd gwaith celf yn nhermau materion megis cysondeb gyda'r Strategaeth hon a pholisi celf cyhoeddus arall, lleoliad, iechyd a diogelwch a chynnal a chadw, cyn penderfyniad cynllunio.

6.19 Gellir gweld a llwytho i lawr gwybodaeth bellach am swyddogaeth Rheolaeth Datblygu, y ffurflenni cais perthnasol ac arweiniad perthynol o adran Gwasanaethau Rheoleiddio gwefan y Cyngor ar www.cardiff.gov.uk

6.20 Ar wahân i ganiatâd cynllunio, efallai y bydd angen caniatâd arall cyn gweithredu project. Mae hyn yn cynnwys materion megis caniatâd tirfeddianwyr ac, yn achos gwyliau a theatr stryd, cofrestru'r digwyddiadau a sicrhau trwyddedau ar gyfer y perfformiadau.

6.21 Noder, cyn i unrhyw gomisiynydd, grŵp cymunedol neu gorff arall ddewis lleoliad ar gyfer celf cyhoeddus, dylid gwneud yr holl ymholiadau perthnasol (gan gynnwys gofyn am gyngor cyfreithiol os oes angen) er mwyn sicrhau y gellir lleoli'r gwaith celf yn y lleoliad a ddewiswyd. Ni all y Cyngor warantu bod modd gosod gweithiau celf ar unrhyw un o'r safleoedd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon.

Asiantaethau Celf

6.22 Mae gan asiantaethau celf ddigon o brofiad wrth ddatblygu gweithiau celf yng ngofal y cyhoedd. Yn y rhan fwyaf o achosion, yn enwedig ar gyfer y comisiynau mwy o ran maint a'r rhai mwy cymhleth, anogir cynnwys asiantaeth gelf. Mae'r manteision o ddefnyddio asiantaethau celf yn cynnwys:

- Gwybodaeth eang am a deallusrwydd o gelf cyhoeddus ac ymarfer cyfoes yng ngofal y cyhoedd
- Prawf pendant eu bod wedi rhoi cychwyn ar ac yna weithredu projectau celf cyhoeddus
- Dealltwriaeth dda a gwybodaeth o fecanwaith caffaeliad oddi mewn i brif brojectau adeiladwaith
- Prawf pendant o'u gallu mewn rheolaeth project: cytundebol, cyllidol a thechnegol
- Gwybodaeth ymarferol am fecanwaith cyllido cyhoeddus ar gyfer y celfyddydau a denu buddsoddiad partneriaid
- Y gallu i weithredu ar sawl lefel, gan weithio fel brocer i bartneriaeth rhwng artistiaid, penseiri, peirianwyr, datblygwyr, y sectorau cyhoeddus a phreifat a grwpiau cymunedol

6.23 Bydd angen i asiantaethau arfaethedig ddangos bod ganddynt ddigon o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a phroffesiynol; eu bod yn gweithredu polisïau iechyd a diogelwch, cyfleoedd cyfartal ac amgylcheddol a bod ganddynt y gallu i weithredu a rheoli cyfrifon un pwrpas cleientiaid. Dylid ystyried y materion hyn wrth ddewis asiantaethau celf.

Brîff y Project

6.24 Defnyddir brîff project i roi gwybod i artistiaid arfaethedig ac eraill fydd yn rhan o'r project am y cyfleoedd a gynigir gan gynllun, a helpu diffinio artistiaid gyda phortffolio arbennig a phrofiad blaenorol perthnasol yn ystod y broses o ddethol yr artist. Dylai'r brîff gynnwys manylion am gyfrifoldebau'r artist; ffiniau'r lleoliad a ddiffiniwyd a chyfyngiadau perthnasol; ffiniau'r project, gan gynnwys y math o waith celf dan ystyriaeth; amserlen y gwaith; manylion talu am y gwaith dechreuol sydd i'w wneud a'r dulliau gweithredu ar gyfer y project.

Tirnod

Tirnod
Cylchdro Ffordd Windsor
Pierre Vivant, 1992

6.25 Rhan o fwriad y strategaeth yw i weithiau celf fod yn benodol i'r safle. Tra'n berthnasol yn bennaf i weithiau celf parhaol, dylid ystyried hefyd yr ystyriaethau hyn wrth ddatblygu gweithiau celf dros dro a digwyddiadau celf cyhoeddus. Dylai Ansawdd a lleoliad y gweithiau celf fod yn rhan o'r ystyriaethau cychwynnol wrth gomisiynu gweithiau celf. Y math o waith celf, ei ffurf, graddfa, clystyru, defnydd o ddeunyddiau, gwead, delweddau, lliw a phwrpas - dylid penderfynu ar y cyfan mewn perthynas â rhyngweithiad cerddwyr a'r amgylchedd lleol, gan ystyried materion megis:

- Iechyd a diogelwch – Creu peryglon / rhwystrau corfforol neu weledol
- Dinoethi i'r tywydd – Glaw / rhew
- Olion llygredd mewn rhai lleoedd – Gollyngiadau gan gerbydau
- Camddefnydd a fandaliaeth – Dringo / graffiti
- Disgrifiadau o ardal – Ardal gadwraeth
- Costau cynnal a chadw – Gwaith glanhau a thrwsio

6.26 Gallai ystyried y materion uchod ffurfio sail ar gyfer gwneud penderfyniadau yn nhermau dewis artist, addasrwydd cynnig terfynol a manylion i'w cynnwys yng nghytundeb y project. Dylid hefyd talu sylw i sut y bydd y materion hyn yn effeithio ar gynnal a chadw'r gweithiau celf yn y dyfodol.

Dewis Artist

6.27 Efallai y bydd unigolion, cyfun gyrff a chyrff am gymryd eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar ffurf y broses caffaeliad a thermau ac amodau unrhyw gytundeb. Arweiniad cyffredinol yw'r wybodaeth a nodir isod.

6.28 Mae gan asiantaethau celf gofnodion helaeth am artistiaid sydd yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn rhinwedd eu gwaith mae ganddynt fodd i gael gafael ar rwydwaith o artistiaid yn yr arfaeth ledled y wlad.

6.29 Wrth benderfynu ar artist, yn ogystal â materion megis y gallu i gynllunio ac ansawdd gwaith, dylid hefyd ystyried y ffactorau a ganlyn:

- Y gallu i brofi eu bod wedi gweithio gyda phenseiri a pheirianwyr
- Prawf o reoli project tebyg o ran maint / graddfa / math
- Dadansoddiad trylwyr o safle, wedi ei adlewyrchu mewn cysyniadau
- Cynllunio a deunyddiau
- Prawf o fanylion yswiriant
- Y gallu i weithio o fewn terfynau cyllideb
- Y gallu i gyfathrebu cysyniadau a syniadau
- Y gallu i orffen project mewn pryd
- Dealltwriaeth o a gwybodaeth am Gaerdydd.

6.30 Mewn llawer o amgylchiadau gall dewis artistiaid lleol fod o fudd, fel dull o sicrhau arwahanrwydd lleol ac o gefnogi economi leol greadigol. Fodd bynnag, nid yw'r Strategaeth yn chwilio am gyfle i gadw allan unrhyw artist, yn enwedig rhai â llai o brofiad neu artistiaid sydd yn datblygu, a dylai'r prosesau dewis a nodir fan hyn roi cyfle i unrhyw ddarpar ymgeisydd ddangos eu potensial i gwrdd â'r meini prawf uchod.

6.31 Wrth benderfynu ar y broses o ddewis, dylid talu sylw i unrhyw reolau a rheoliadau sydd yn ymwneud â chaffaeliad gan y corff dan sylw. Gan ystyried y meini prawf hyn, mae tair prif broses i benderfynu ar artist, sef:

Gwahoddiad Agored

Gellir trefnu Gwahoddiad Agored yn lleol, yn genedlaethol neu yn rhyngwladol. Mae'r broses yn cynnwys hysbysebu am ddatganiadau o ddiddordeb / cynigion cynllunio; paratoi rhestr fer a'r dewis terfynol. Y prif faterion i'w hystyried gan y comisiynwr drwy'r math hyn o broses ddethol yw costau'r hysbysebu a'r dewis mewn perthynas â'r gyllideb ar gyfer y project a lefel profiad yr artistiaid sydd yn ymateb.

Gwahoddiad Dethol

Gan amlaf gwneir hyn gan asiantaeth gelf ac mae'n cynnwys targedu artistiaid gyda phrofiad mewn maes penodol, perthnasol

Meinciau Creaduriad

Meinciau Creaduriaid
Cei a Pharc Britannia
Gwen Heeney, 1994

i'r gwaith celf neu'r lleoliad arfaethedig. Sefydlir rhestr fer o artistiaid addas a bydd yr asiantaeth gelf yn gweithio gyda'r comisiynydd i ddewis yr artist terfynol ar gyfer y project.

Dewis Uniongyrchol

Efallai bydd comisiynwyr yn dewis gweithio gydag artist cydnabyddedig, artist maen nhw wedi gweithio gydag ef o'r blaen, neu i ehangu cysyniad gwaith celf sydd eisoes yn bodoli.

6.32 Mantais y broses gomisiynu gystadleuol yw ei bod yn ffordd o ystyried amrywiaeth o gynigion dyfeisgar ac yn cynnwys budd-ddeiliaid yn y drafodaeth gychwynnol am themâu a chysyniadau.

Ymrwymiad y Gymuned ac Ymgynghoriad Cyhoeddus

6.33 Unwaith mae safle wedi ei dewis ar gyfer project celf cyhoeddus, dylid ystyried pwy fydd prif ddefnyddwyr y lleoliad ac, yn ei dro, pwy fydd derbynwyr y gwaith celf.

6.34 Mae ymgynghori ac ymrwymiad yn faterion allweddol wrth ddatblygu a derbyn gwaith celf cyhoeddus. Mae'n galluogi pobl i chwarae rhan weithredol mewn trafodaethau a gwneud penderfyniadau am eu hamgylchedd.

6.35 Dylai comisiynwyr ystyried ffyrdd o gael y cyhoedd i ymddiddori mewn projectau newydd ac annog cyfranogiad gweithgar. Gall hyn gynnwys:

- Gweithdai a redir gan artistiaid
- Casglu barn pobl leol
- Arddangosfeydd ac arddangosiadau
- Cyflwyniadau a sgyrsiau
- Ymrwymiad myfyrwyr/ ysgolion.

6.36 Mae teimlad o berchnogaeth gref gan aelodau o'r cymunedau lleol am eu canolfannau siopau lleol, parciau cyhoeddus, meysydd chwarae ac ardaloedd preswyl ac maent yn ffurfio rhan o'u hamgylchedd bob dydd. Wrth ddatblygu gwaith celf yn un o'r lleoedd hyn, dylid trafod gyda neu weithio gyda'r gymuned leol er mwyn iddynt fod yn rhan o'r broses o wneud celf.

6.37 Trwy ymrwymo'r gymuned leol mewn project o'r dechrau a'u galluogi i gael mewnbwn i syniadau, cysyniadau a, fel fo hynny'n addas, gweithredu cynllun, gall grwpiau ac unigolion ddatblygu synnwyr o berchnogaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol a gwerthfawrogiad o waith celf. Gall hyn yn ei dro helpu gostwng y potensial ar gyfer fandaliaeth a'r materion cynnal a chadw sydd ymhlyg yn hyn.

Rheoli'r Project

6.38 Pan fo artist wedi ei apwyntio ac ar ôl paratoi'r cytundebau perthnasol, dylai rhan gychwynnol y project gynnwys yr artist yn creu nifer o gysyniadau cynllunio ar gyfer y safle neu'r cynllun arfaethedig. Yn ystod y cyfnod hwn gall y Cyngor gynghori ar addasrwydd ac ymarferoldeb project, egluro a fyddai angen caniatâd cynllunio a thrafod unrhyw waith arall y byddai'n rhaid ei wneud cyn cyflwyno cais cynllunio. Ni fydd y Cyngor yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled, niwed neu gost a all ddeillio o ganlyniad i ddibyniaeth ar unrhyw gyngor tebyg a roddir.

6.39 Unwaith mae comisiynydd project ac unrhyw gyrff perthnasol sydd yn rhan o'r penderfyniadau wedi dewis y cynllun terfynol, byddai'r camau sydd yn dilyn yn galw am greu cynllun manwl ar gyfer y gwaith celf a ddewiswyd, gan gynnwys darluniau gweithio ac ymgynghoriad gyda pheirianwyr. Unwaith bod popeth wedi ei dderbyn, mae gweithredu'r project yn cynnwys creu'r gwaith celf, apwyntio contractwyr lle bo angen, gosod y gwaith ar y safle ac, yn olaf, y dadorchuddio.

6.40 Ar gyfer pob project celf cyhoeddus dylid cael corff proffesiynol cydnabyddedig i greu'r cytundeb, er enghraifft, asiantaeth gelf. Bydd y cynnwys yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r project, ond mae'n debygol o gynnwys y materion canlynol:

- Cyfrifoldebau a goblygiadau'r partïon dan gytundeb

Gweithfeydd Stryd Bute

Gweithfeydd Stryd Bute
Stryd Bute, Butetown
Andrew Rowe, David Mackie a Heather Parnell, 2001

- Yswiriant perthnasol
- Ffioedd
- Cyfnod comisiynu (dyddiad dechrau a gorffen)
- Cyflenwi gwasanaethau gan y partïon dan gytundeb
- Hawlfraint a pherchnogaeth
- Materion iechyd a diogelwch.

Cofnodi Manylion Project

6.41 Bydd pob project newydd yn cyfrannu tuag at y casgliad o gelf cyhoeddus sydd gan Gaerdydd eisoes ac mae nifer o gyfleodd ar gael yn nhermau marchnata, cyhoeddusrwydd, deunydd addysgol a llwybrau gwaith celf. Er mwyn cael y budd mwyaf o bob darn newydd o gelf cyhoeddus, dylid cofnodi'r wybodaeth a ganlyn gyda'r Cyngor:

- Teitl y gwaith celf
- Math / dull (Cerflunwaith ac ati)
- Artist
- Lleoliad / heol
- Union leoliad, cyfeirnod OS a'r cod post
- Dyddiad y cynllun
- Comisiynwyd gan…
- Blwyddyn y dadorchuddio / manylion y dadorchuddio
- Disgrifiad o'r gwaith celf / nodiadau ar ddeunyddiau, mesuriadau, arysgrifau, llofnodion ac ati
- Hanes y comisiynu

6.42 Yn ogystal â'r wybodaeth hon, mae'n hanfodol bod cyfrifoldeb am berchnogaeth a dyletswydd gofal (7.5) yn cael eu diffinio'n glir a'u dogfennu, ynghyd â chynllun cynnal a chadw gorffenedig (7.9).

Sgwâr Clos y Gôrllewin

Sgwâr Clos y Gôrllewin
Clos Gorllewin, Butetown
David Mackie a Nina Edge, 1993

7. Einioes Gwaith Celf

7.1 Mae cynnal a chadw yn ffactor allweddol yng ngofal tymor hir ac ansawdd unrhyw waith celf cyhoeddus a gall rhaglen gynnal a chadw lwyddiannus helpu sicrhau bod y budd a'r gwelliannau a ddaw yn sgil gwaith celf yno i'w mwynhau gan genedlaethau'r dyfodol.

7.2 Gall cynnal a chadw gwael greu llawer ardrawiad arwyddocaol, o'r lefel leol lle gall fandaliaeth neu graffiti ar ddarn o gelf dynnu oddi ar ansawdd yr ardal (er enghraifft mewn lle chwarae i blant neu mewn ardal agored gyhoeddus) i enw da ehangach celf cyhoeddus ar draws y ddinas. Gall dirywiad, neu ddifrod i gelf cyhoeddus gael nifer o oblygiadau iechyd a diogelwch a dylid ystyried hyn hefyd.

7.3 Gall gweithio o blaid materion cynnal a chadw o'r diwrnod cyntaf helpu sicrhau bod ansawdd gwreiddiol y gwaith celf yn cael ei werthfawrogi'n llwyr a bod costau cynhaliaeth yn cael eu cadw cyn ised â phosibl. O'i adael, gall gwaith celf ddirywio yn gyflym iawn. Gall hyn ddigwydd oherwydd traul cyffredinol, difrod, budreddi neu fandaliaeth a gall arwain at waith adfer ehangach neu hyd yn oed digomisiynu. Beth bynnag fo'r achos, collir gwerth y gwaith celf a bydd dibrisio annheg ar enw da yr artist ac eraill oedd ynghlwm â'r gwaith.

7.4 Dengys casgliad y Cyngor o weithiau celf hanesyddol bod celf cyhoeddus a gaiff ei gadw'n ofalus yn gallu creu delwedd barhaol gyda chryn ddylanwad ar ardal leol, fel ym Mharc Cathays. Dylai gweithiau celf a orffennwyd yn ddiweddar a phrojectau'r dyfodol anelu at lefelau tebyg o wytnwch, drwy ofal tymor hir a gynlluniwyd yn dda.

Perchnogaeth Gyfreithiol a Dyletswydd Gofal

7.5 Mae cydnabod a chadarnhau pwy sydd yn berchen yn gyfreithiol ar waith celf cyhoeddus a chyda phwy y gorwedd dyletswydd gofal (cyfrifoldeb) yn ganolog i drefniadau cynnal a chadw addas. Efallai bod hyn yn ymddangos yn amlwg; ond mae cymhlethdodau cael hyd i systemau cyllido a pherchnogaeth tir yn aml yn cymylu materion perchnogaeth a gall amgylchiadau newid dros gyfnod o amser.

7.6 Er enghraifft, lle mae darn o waith celf cyhoeddus yn cael ei greu fel rhan o ddatblygiad a'i leoli o flaen yr adeilad ar ffordd gyhoeddus, dylid penderfynu o'r dechrau pwy sydd yn gyfrifol am ei gynnal a'i gadw - ai y Cyngor, y comisiynydd gwreiddiol neu bwy bynnag fydd yn y pen draw yn berchen ar yr adeilad.

7.7 Pan fo darn o waith celf cyhoeddus yn rhan gyfannol o adeilad, wedi ei osod yn libart datblygiad neu ar dir sydd yn eiddo preifat, disgwylir bod cyfrifoldeb cynnal a chadw a dyletswydd gofal yn parhau gyda'r safle a pherchnogion yr adeilad.

7.8 Pan fo darn o waith celf cyhoeddus i'w osod ar dir o fewn perchnogaeth y Cyngor, dylid gwneud cytundeb rhwng y comisiynydd a'r Cyngor i sefydlu cyfrifoldebau cynnal a chadw. Mewn achosion lle bo dyletswydd gofal yn cael ei roi yn nwylo'r Cyngor, disgwylid rhodd ariannol tuag at gynnal a chadw.

Amserlenni Cynnal a Chadw

7.9 Yn ystod datblygiad project gwaith celf cyhoeddus, dylid ystyried y ddogfennaeth drylwyr ar y grwpiau, unigolion a'r prosesau fydd yn rhan o'r project er mwyn gwneud cynnal a chadw yn y dyfodol mor glir a phlaen â phosibl. Argymhellir bod yr wybodaeth sy'n dilyn yn cael ei ddogfennu mewn amserlen cynnal a chadw a'i gytuno cyn i'r project gael ei gyflwyno:

- Manylion cyswllt pob cwmni sydd â rhan yn y project e.e. saer maen, trydanwr
- Y deunyddiau a ddefnyddiwyd yn ystod yr adeiladu a manylion y cyflenwr e.e. carreg Efrog, gwenithfaen

Cofebion

Cofeb Ryfel Cenedlaethol Cymru
Gerddi Alexandra
A. Bertram Pegram, 1928

Cofeb Ryfel yr Eglwys Newydd
Llyfrgell yr Eglwys Newydd, Stryd y Parc
Circa 1920



Cofeb Scott
Llyn Parc y Rhath
1915

- Triniaethau, prosesau a gwaith gofal yn sgil gorffen e.e. caen cwyr gwrthsefyll graffiti
- Llinelliadau cynllunio a strwythurol, gan gynnwys cydrannau a mecanweithiau
- Einioes ddisgwyliedig y cydrannau e.e. bwlb golau
- Lleoliad ffynhonnell ynni, cyflenwad ynni, cyflenwad dŵr a lle gorwedd cyfrifoldebau
- Rhifau cyfeirio Sefydliad Safonau Prydeinig neu debyg ar gyfer cydrannau e.e. gwydr diogelwch
- Amserlen glanhau, gan amlinellu ac argymell cyfnodau amser y dylid gwneud y gwaith e.e. yn flynyddol yn ystod misoedd yr haf ac ati
- Datganiad clir yn nhermau'r gwaith y disgwylir i berchennog y gwaith celf ei wneud a gwaith fydd yn galw am ymrwymiad gan yr artist neu geidwad arbenigol.

7.10 Er mwyn sicrhau bod y gweithiau celf newydd i gyd yn cael eu diogelu am flynyddoedd i ddod, dylai cyflwyno amserlen cynnal a chadw fod yn rhan o brîff yr artist a'r cytundeb comisiynu.

Goblygiadau ariannol

7.11 Rhaid i gomisiynwyr ac artistiaid ddeall y cyfrifoldebau cynnal a chadw ar gyfer project a cheisio cynllunio gweithiau celf sydd yn wydn ac mor hawdd eu cynnal a'u cadw â phosibl. Dylid ystyried effeithiau hinsawdd a sut y gellir effeithio ar waith celf gan weithgarwch cydffiniol. Er mwyn sicrhau nad yw cyfrifoldebau cynnal a chadw a'r costau sydd yn gysylltiedig â hyn yn mynd yn fwrn, argymhellir cynnal arolwg o gyflwr y gwaith celf yn rheolaidd. Dylid gwneud unrhyw weithiau adfer neu lanhau pan fo angen er mwyn sicrhau nad yw'r dirywiad yn arwain at waith atgyweiriad fydd yn ddrytach yn y tymor hir.

7.12 Wrth ddatblygu gwaith celf deinamig a fydd efallai yn defnyddio dŵr, trydan neu ddarnau symudol eraill, dylid ystyried yr angen i osod amnewid cydrannau, gan gynnwys eitemau tymor byr megis bylbiau golau. Dylid nodi costau perthynol yn glir a'u dosrannu dros byth. Mae gweithiau celf o'r math hyn yn fwy agored i draul cyffredinol neu ddifrod a dylid felly eu hadolygu yn fwy rheolaidd.

Ail-leoli a Digomisiynu

7.13 Mewn rhai amgylchiadau, am resymau ymarferol neu greadigol, gall fod angen symud darn o waith celf neu bydd angen proses digomisiynu. Gallai hyn ddigwydd pe cyrhaeddai'r gwaith ddiwedd yr einioes a osodwyd arno, pan nad yw'r gwaith ar safle y cafodd ei gynllunio ar ei gyfer neu os yw'n rhaid ailddatblygu safle ar unwaith. Fe allai strwythur y gwaith beryglu diogelwch y cyhoedd a bod angen ei symud oddi yno.

7.14 Ble fo'r Cyngor wedi bod yn rhan o ddatblygu gwaith celf, naill ai fel comisiynydd project neu drwy roi caniatâd cynllunio, dylai ymgynghori ddigwydd rhwng y Cyngor, yr artist, y comisiynydd gwreiddiol a'r perchennog i asesu pob achos yn unigol boed yn adleoliad posibl neu ddigomisiynu cyn gwneud y penderfyniad terfynol.

Gwaith Celf Integredig

Arena Ryngwladol Caerdydd
Stryd Mary Ann, Canol y Ddinas

Y Farchnad Ganolog
Stryd y Drindod, Canol y Ddinas

Llys yr Ynadon,
Fitzalan Place, Canol y Ddinas

Canolfan Y Fyddin Dirioga-ethol
Stryd Adam, Canol y Ddinas

8. Argymhellion I'w Gweithredu

8.1 Tra bod yng Nghaerdydd eisoes gyfoeth o weithiau celf cyhoeddus hynod lwyddiannus, gellir gwneud mwy i amlhau'r budd maent yn cynnig. I'r perwyl hwn, mae'r Strategaeth yn gosod nifer o argymhellion gerbron, wedi eu hanelu at adeiladu ar y cyflawniadau sydd eisoes yn bod ac ymestyn cyfleoedd ar gyfer celf cyhoeddus.

8.2 Mae'r argymhellion wedi eu gosod yn fras mewn pedair prif adran: Rheolaeth, Mecanwaith Cyllido, Dogfennaeth, Marchnata a Chyhoeddusrwydd.

Rheolaeth

8.3 O fewn y Cyngor, ar hyn o bryd rhennir cyfrifoldebau rheolaeth rhwng Adrannau Gwasanaethau ac nid oes un grŵp unigol yn gyfrifol am gydlynu pob agwedd ar gelf cyhoeddus. Yn hanfodol i ddilyniant y Strategaeth Celf Cyhoeddus hon mae datblygiad system reoli glir a all hybu cysylltiadau gyda'r holl bartneriaid a chyrff, a all greu perthnasau gweithiol newydd ac yn bennaf oll a all wneud celf cyhoeddus yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Argymhelliad 1 Swyddog Celf Cyhoeddus
Dylid enwebu Swyddog Celf Cyhoeddus oddi mewn i'r Cyngor i roi ffocws i barhad datblygiad Celf Cyhoeddus yng Nghaerdydd.

8.4 Mae'r angen i gydlynu gweithgarwch celf cyhoeddus dros ystod eang o weithgareddau'r Cyngor yn golygu bod angen swyddog gyda'r sgiliau i weithio ar y cyd gyda swyddogion y Cyngor, aelodau etholedig ac asiantaethau allanol. Dylai'r person a benodir ar gyfer y dasg hon fod yn brofiadol, nid yn unig yn ymarferion gweithio y Cyngor, ond dylai fod ganddo / ganddi hefyd wybodaeth drylwyr am gelf cyhoeddus a'i ddefnydd yng ngafael y cyhoedd.

8.5 Byddai'n rhaid wrth eglurhad pellach cyn rhoi diffiniad union i'r swyddogaeth ond y prif ddyletswyddau fyddai:

- Llywio gweithredu y Strategaeth Celf Cyhoeddus
- Gweithredu fel y cyswllt cyntaf ar gyfer pob ymholiad ddaw i'r Cyngor am gelf cyhoeddus
- Gweithio fel ymgyrchydd ar gyfer polisi a strategaeth celf cyhoeddus y Cyngor
- Annog arferion da wrth drosglwyddo celf cyhoeddus ac annog cydweithio rhwng artistiaid, grwpiau cymunedol a phobl broffesiynol eraill
- Sefydlu cydsyniad o blaid celf cyhoeddus ar draws Adrannau Gwasanaethau'r Cyngor
- Datblygu a chynnal perthynas gyda'r partneriaid proffesiynol perthnasol
- Cynnig cyngor ac arweiniad i adrannau gwasanaethau'r cyngor ac asiantaethau allanol

8.6 Argymhellir bod swydd y Swyddog Celf Cyhoeddus yn cael ei roi i aelod presennol o'r staff yn y lle cyntaf. Wrth i'r swyddogaeth sefydlu efallai y bydd yn addas apwyntio Swyddog Celf Cyhoeddus llawn amser.

8.7 Bydd cynnydd celf cyhoeddus a gweithredu'r cynigion a osodwyd yn y Strategaeth hon yn ddibynnol ar ddadleuon effeithiol a manylion clir am gyfrifoldeb. Mae dynodiad Swyddog Cyhoeddus yn hanfodol i sicrhau amser diffiniedig i swyddog ac adnoddau ar gyfer celf cyhoeddus a chynnig agwedd a chyflwyniad cydlynol i'r strategaeth, law yn llaw ag Adrannau Gwasanaethau'r Cyngor

Canolfan Ddinesig

Morwriaeth
Adeilad Morgannwg, Rhodfa'r Brenin Edward VII
Albert Hodge, Circa 1912

Masnach a Diwydiant
Y Llysoedd Barn, Rhodfa'r Brenin Edward VII
Paul Raphael Montford, Circa 1906

Draig Gymreig
Neuadd y Ddinas, Rhodfa'r Brenin Edward VII
Henry Fehr, Circa 1906

Awenyddiaeth a Cerddoriaeth
Y Llysoedd Barn, Rhodfa'r Brenin Edward VII
Paul Raphael Montford, Circa 1906

Argymhelliad 2 Fforwm Celf Cyhoeddus
Dylid sefydlu Fforwm Celf Cyhoeddus i weithredu fel grŵp i gynnig cyngor arbenigol.

8.8 Byddai'n rhaid wrth eglurhad pellach cyn rhoi diffiniad union i swyddogaeth Fforwm Celf Cyhoeddus ond yn gyffredinol gallai rhan o'r swyddogaeth gynnig cyngor ar:

- Ddatblygiad partneriaethau mewn projectau mawrion yn y sectorau preifat a chyhoeddus
- Manteision projectau posibl
- Datblygiad nawdd posibl ar gyfer celf cyhoeddus
- Broceriaeth a chynnal partneriaethau datblygu.

8.9 Gall y fforwm gael ei greu o aelodau etholedig a swyddogion portffolio pob Cyngor ond gallai hefyd dynnu ar arbenigedd artistiaid, pobl broffesiynol ym myd celf, cynrychiolwyr cymunedau, penseiri, peirianwyr a chyrff proffesiynol perthnasol eraill. Byddai angen bod gan aelodau'r fforwm ddealltwriaeth glir o ymarferoldeb gosod gweithiau celf yng ngafael y cyhoedd.

Mecanwaith Cyllido

8.10 Mae'r Cyngor yn ddadleuwr brwd dros gelf cyhoeddus ac mae wedi ymgorffori gwaith celf yn llawer o'i ddatblygiadau ei hun mewn partneriaeth gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat.

8.11 Mae Caerdydd wedi cael budd o agwedd bleidiol llawer o'r datblygwyr preifat wrth osod gweithiau celf hynod lwyddiannus fel rhan o'u datblygiadau sydd yn chwarae rôl allweddol wrth wella ansawdd y celf sydd yng ngafael y cyhoedd.

8.12 Tra bo'r Strategaeth yn bwriadu parhau gyda datblygiad gweithiau celf cyhoeddus drwy gynigion unigol, mae'r awydd yn bod i gynyddu nifer y gweithiau celf ar draws y ddinas a hybu cyfleoedd i brojectau gweithiai celf cydweithrediadol. I'r perwyl hwn mae'r ddogfen yn gosod tri chynnig gerbron ar gyfer cyllido celf cyhoeddus. Mae'r rhain yn cyfeirio at Canran ar gyfer Celf, Cronfa Celf Cyhoeddus a Chynllun Nawdd Celf Cyhoeddus.

Argymhelliad 3 Canran ar gyfer Celf
Oddi mewn i Gaerdydd, dylid annog datblygwyr i neilltuo canran o gost eu cynnig i ddarpariaeth integredig celf cyhoeddus.

8.13 Defnyddir y cysyniad Canran ar gyfer Celf drwy America, Awstralia ac Ewrop, lle gosodir o'r neilltu ganran o gost cyfalaf datblygiad newydd neu atgyweiriad ar gyfer darpariaeth integredig celf cyhoeddus. Mae'r cysyniad wedi ei gyflwyno gan nifer o awdurdodau lleol yn y DU ac fe'i cydnabyddir fel dull effeithiol o gyllido celf sydd yng ngafael y cyhoedd.

8.14 Mae Canran ar gyfer Celf wedi profi'n boblogaidd iawn fel dull o sicrhau celf cyhoeddus o fewn Caerdydd a chafodd ei weithredu fel rhan o adfywiad Bae Caerdydd. Dros gyfnod o ddeng mlynedd sicrhawyd buddsoddiad o fwy na £5.5.m o'r sector preifat ar gyfer celf cyhoeddus drwy Canran ar gyfer Celf fel y'i gosodwyd yn nogfen 1990 "Y Strategaeth ar gyfer Celf Cyhoeddus ym Mae Caerdydd" a weithredwyd gan Ymddiriedolaeth Celfyddyd Bae Caerdydd.

8.15 Gellir gweld y budd sydd wedi deillio o'r fenter hon heddiw lle mae casgliad helaeth o weithiau celf hygyrch ac o ansawdd uchel wedi eu hintegreiddio i ffabrig corfforol datblygiad a gafael y cyhoedd, o weithiau celf sydd yn sefyll ar eu pennau eu hunain a gweithiau llinellol yng Nghei'r Forforwyn, i weithiau allweddol pyrth a thirnodau ledled Bae Caerdydd.

8.16 Dylai'r Cyngor geisio gweithredu egwyddor 'Canran ar gyfer Celf' wrth ystyried celf cyhoeddus fel rhan o gynnig datblygiad. Mae'r cysyniad yn hyblyg i'r graddau bod modd cyd-drafod y gefnogaeth ariannol oddi mewn i'r egwyddor sylfaenol a dylid ei ystyried fel arweiniad wrth asesu graddfa cyfraniad.

8.17 Egwyddor pennaf 'Canran ar gyfer Celf' yw y dylid gosod o'r neilltu y swm a bennwyd ar ddechrau'r broses ddatblygu fel y gellir sicrhau modd darparu celf cyhoeddus sydd yn rhan annatod o'r cynnig datblygu.

8.18 Nid oes yn rhaid i gelf cyhoeddus fod yn ddrud a bydd cost pob darn o waith celf

Brithwaith Caerdydd Canoleg

Brithwaith yr Orsaf
Gorsaf Caerdydd Canolog, Sgwâr Canolog
Rob Turner, 2003

yn amrywio yn ôl ei berthynas â safle. Wrth asesu cyfraniad, byddai disgwyl i ddatblygwr ddangos sut y bydd celf cyhoeddus yn cael ei ymgorffori yn eu cynllun sydd yn perthyn yn rhesymol i raddfa, lleoliad a defnydd y safle.

8.19 Dylai celf cyhoeddus ffurfio rhan o weledigaeth cynllun ehangach, gyda chysyniadau yn rhan annatod o adeilad neu ei leoliad. Ble mae disgwyl i safle gael ei gosod yn ei lle mewn cyfnodau, byddai disgwyl i'r datblygwr gyflwyno cynllun celf cyhoeddus ar gyfer y safle cyfan.

8.20 Mae 'Canran ar gyfer Celf' hefyd yn cynnig cyfle i ddatblygiadau llai, na fydd o reidrwydd yn gwarantu darn unigol o waith celf neu lle mae datblygiad yn ffurfio rhan o broject mwy o faint, i asesu'r swm a ystyrid yn addas ar gyfer cyfraniad unigol ar gyfer cyweithiau celf.

8.21 Gellir cael gwybodaeth bellach yngl n ag integreiddiad celf cyhoeddus fel rhan o gynnig datblygu yn y Cynllun Drafft Arweiniad Atodol i Gelf Cyhoeddus Caerdydd:

Argymhelliad 4 Cronfa Celf Cyhoeddus
Dylid sefydlu Cronfa Celf Cyhoeddus.

8.22 Gellir sicrhau cyllideb ar gyfer projectau celf cyhoeddus drwy amryw ffynonellau gan gynnwys grantiau, nawdd a rhoddion yn ogystal â thrwy'r broses ddatblygu a ddisgrifiwyd uchod. Efallai na fydd yr holl gyllid a geir yn y modd hwn yn berthnasol i rai o'r projectau a enwyd felly argymhellir sefydlu Cronfa Celf Cyhoeddus er mwyn cadw'r arian hyn.

8.23 Unwaith y bydd wedi ei sefydlu, gallai'r Gronfa Celf Cyhoeddus dargedu arian tuag at agweddau megis:

- Creu cynlluniau cyweithiau, a ariennir yn gronnus gan roddion llai
- Projectau celf cyhoeddus o fewn cymunedau lleol
- Datblygu gweithiau celf tirnodau strategol
- Marchnata celf cyhoeddus / llwybrau celf cyhoeddus
- Cynnal a chadw gweithiau celf o fewn cyfrifoldeb y Cyngor

8.24 Byddai angen ystyriaeth ofalus o'r union fecanwaith ar gyfer sicrhau, rheoli a dosrannu'r arian hwn er mwyn sicrhau tryloywder y broses o benderfynu ac ati. Bydd gan y Swyddog Celf Cyhoeddus ran allweddol yn y ffordd y byddai'r broses hon yn gweithredu.

8.25 Tra bod modd defnyddio'r arian a gedwid mewn Cronfa Celf Cyhoeddus i gynnal a chadw a gwella casgliad presennol Caerdydd o gelf cyhoeddus, ni ddylai hyn fod ar draul mentrau celf newydd. Dylid rheoleiddio cyfraniadau i'r Gronfa i'w gwario o fewn ardal a ddiffiniwyd, i bwrpas wedi ei ddiffinio neu fel rhan o gynllun wedi ei ddiffinio.

Argymhelliad 5 Cynllun Noddi Celf Cyhoeddus
Dylid sefydlu Cynllun Noddi Celf Cyhoeddus gan y Cyngor

8.26 Adnodd arall sydd ar gael ar gyfer celf cyhoeddus yw'r cyfle i fusnesau lleol a phartïon eraill noddi celf cyhoeddus yng Nghaerdydd. Gallai gweithredu Cynllun Noddi Celf Cyhoeddus roi hysbysrwydd i fusnes neu gorff, naill ai yn perthyn yn uniongyrchol i ddatblygiad gwaith celf penodol, trwy osod llechfeini ar safle, trwy lenyddiaeth berthynol a hawliau cyhoeddusrwydd neu fel rhan o'r casgliad o gelf cyhoeddus ehangach trwy gyhoeddusrwydd, gan gynnwys taflenni ar lwybrau gwaith celf a deunydd hybu arall, gan gynnwys gwefan y Cyngor.

Dogfennaeth

8.27 Gyda hanes comisiynu sydd yn ymestyn yn ôl dros ganrif, mae yng Nghaerdydd gasgliad cyfoethog ac amrywiol o waith celf cyhoeddus. Mae rhai o'r gweithiau celf a leolwyd gynharaf yn y ddinas yn cynnwys cofebion megis cerflun John Batchelor yn yr Aes a gwaith celf yn ffasadau adeiladau cyhoeddus, megis 'alegorïau busnes gwerthu dillad' sydd yn addurno siop adrannol Howells ar Heol Fair

Cerfiad Pren

Cerfiad Pren
Parc Bute
Nancy Hemmings, 2004

Cerfiad Pren
Parc Bute
Dave King, 2004

Cerfiad Pren
Parc Bute
Nancy Hemmings, 2004

8.28 Mae'n amlwg bod angen dogfennu'r cyfoeth hwn o waith celf cyhoeddus, fel adnodd gwybodaeth i'r Cyngor a'r cyhoedd, ond hefyd i helpu rheoli a hybu gweithiau celf yn gyffredinol.

8.29 Byddai arolwg cyffredinol o weithiau celf cyhoeddus sydd yn bod eisoes yng Nghaerdydd yn cynnwys:

- Gweithiau celf cyhoeddus drwy'r Sir, nid yn unig yng nghanol y ddinas a Bae Caerdydd
- Celf cyhoeddus sydd yn rhan o ffasadau adeiladau
- Celf cyhoeddus sydd i'w weld mewn adeiladau e.e. Neuadd y Ddinas, Neuadd Dewi Sant yn ogystal â mewn canolfannau siopa a gorsafoedd trên ac ati
- Celf cyhoeddus mewn ysgolion, llyfrgelloedd, adeiladau iechyd ac mewn cymunedau lleol
- Celf cyhoeddus o fewn ffiniau datblygiadau preifat ac adeiladau eglwysig

Argymhelliad 6 Gwybodaeth am Gelf Cyhoeddus
Dylid creu cronfa ddata i gofnodi gwybodaeth sydd yn berthnasol i weithiau celf cyhoeddus oddi mewn i Gaerdydd wedi ei seilio ar archwiliad cyflawn o weithiau sydd yn bodoli eisoes ar draws y Sir.

8.30 Ar hyn o bryd nid oes gan y Cyngor gronfa ddata cyflawn o weithiau celf cyhoeddus sydd yn bodoli eisoes. Mae dwy gronfa ddata wedi eu casglu gan CBAT: Asiantaeth y Celfyddydau ac Adfywiad a'r Sefydliad Cofebion a Cherflunwaith Cyhoeddus; mae'r ddau yn edrych ar agweddau o gelf Cyhoeddus yng Nghaerdydd. Byddai hyn yn galw am archwiliad trylwyr o gelf cyhoeddus, wedi ei seilio ar nifer o faterion allweddol, gan gynnwys yr angen i:

- Sefydlu seilwaith ar gyfer celf cyhoeddus sydd yn bod eisoes o fewn y Sir, gan gynnwys lleoliad, agosrwydd a chlystyru gweithiau celf
- Sefydlu'r themâu a'r cyswllt sydd yn bodoli rhwng gweithiau celf
- Dehongli'r casgliad o weithiau celf cyhoeddus i sefydlu'r bylchau yn y ddarpariaeth bresennol ac i gydnabod cyfleoedd i leoli gweithiau celf y dyfodol
- Gosod sylfaen ar gyfer datblygu llwybrau gwaith celf a rhaglenni addysgol
- Cynnig gwell mynediad i wybodaeth
- Sefydlu manylion perchnogaeth a dyletswydd gofal
- Asesu cyflwr cyffredinol gweithiau celf ac unrhyw anghenion cynnal a chadw

8.31 Er mwyn creu cronfa ddata celf cyhoeddus byddai angen creu lleoliad casglu wedi ei ddiffinio'n glir ar gyfer cofrestru gwybodaeth yngl n â chelf cyhoeddus. Dylid sefydlu hyn o fewn y Cyngor ac argymhellir bod y gwaith hwn yn rhan o swyddogaeth y Swyddog Celf Cyhoeddus.

8.32 Byddai angen ystyriaeth bellach i benderfynu sut byddai modd rhannu'r wybodaeth hon â'r cyhoedd a sut y dylid ei defnyddio mewn materion perthnasol i gynnal a chadw a digomisiynu gweithiai celf cyhoeddus.

Marchnata a Chyhoeddusrwydd

8.33 Mae dyfnder ac ansawdd gweithiau celf cyhoeddus yng Nghaerdydd yn cynnig cyfoeth o gyfleodd ar gyfer marchnata a chyhoeddusrwydd. Mae hyn nid yn unig yn cyfrannu at broffil diwylliannol y ddinas, yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, ond hefyd yn adnodd addysgol gwerthfawr i drigolion Caerdydd ac ymwelwyr â'r ddinas.

Argymhelliad 7 Gwefan
Dylai'r Cyngor neilltuo rhan o'i wefan i gelf cyhoeddus, gan gynnig mynediad i wybodaeth i aelodau o'r cyhoedd.

8.34 Unwaith mae cronfa ddata o gelf cyhoeddus wedi ei sefydlu byddai'r cyfle yn bodoli i wneud elfennau o'r wybodaeth yn hygyrch i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor. Gallai hyn fod ar ffurf map yn pwysleisio lleoliad y gweithiau celf ar draws y Sir a fyddai

Wynebau Enwog

Cerflun John Batchelor
Yr Aes, Canol y Ddinas
James Milo Griffith, 1886

Cerflun Aneurin Bevan
Stryd y Frenhines, Canol y Ddinas
Robert Thomas, 1987

Cerflun Jim Driscoll
Teras Bute, Canol y Ddinas
Philip Blacker, 1997

yn cysylltu â gwybodaeth gefndirol, hanes a lluniau'r gweithiau celf wedi eu crynhoi o'r gronfa ddata. At hyn, gallai'r 'map' o gelf cyhoeddus bwysleisio llwybrau gwaith celf cyhoeddus, lleoliadau perfformio a chelf cyhoeddus oddi mewn i adeiladau sydd yn hygyrch i'r cyhoedd.

Argymhelliad 8 Argymhelliad 8
Arweinlyfrau Gwybodaeth
Dylid datblygu cyfres o adnoddau addysgol perthnasol i gelf cyhoeddus.

8.35 Mae llawer o weithiau celf y Ddinas yn cynnig cipolwg ar hanes a datblygiad Caerdydd, o'r cerfluniau o gymeriadau pwysig yn hanes y ddinas i weithiau celf sydd yn cyflwyno etifeddiaeth safle a darnau sydd yn dadlennu hanes lleol. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- 'Pawb wrth ei waith' a leolwyd ar Stryd T 'r Tollau. "Tyfodd yr ysbrydoliaeth am y cynllun o'i leoliad ar safle hen Gamlas Morgannwg. Mae'r dwylo yno i atgoffa pobl o'r gamlas a fu yn brysur unwaith ac ymdrechion corfforol gweithwyr y gamlas wrth dynnu eu cychod ar hyd y gamlas."

- "Billy'r Morlo'. Comisiynwyd y gwaith hwn i ddathlu canmlwyddiant Parc Buddug ac roedd yn rhan o welliannau cyffredinol ac adfywiad y Parc. Roedd 'Billy' y morlo yn byw yn y llyn ym Mharc Victoria o 1912 tan ei farwolaeth yn 1939. Cawsai ei ddal yn rhwydi cwch oedd yn gweithio allan o Fae Caerdydd yn 1912. Roedd yn atyniad lleol poblogaidd iawn, yn enwedig ar ôl llifogydd yn 1927 pan orlifodd Afon Elai a dihangodd 'Billy' a nofio lawr y ffordd a elwir bellach yn Heol Ddwyreiniol y Bont-faen."

8.36 Mae cyfle yn bodoli i ddatblygu cyfres o ddeunyddiau addysgol ar ffurf arweinlyfrau, taflenni a chyfarpar clywed i ysgolion, colegau a chanolfannau ymwelwyr fydd yn pwysleisio'r cyfeiriadau diwylliannol a hanesyddol hyn.

Argymhelliad 9 Llwybrau
Dylid datblygu cyfres o lwybrau gwaith celf o gwmpas y Ddinas a'r Sir.

8.37 Er bod yng Nghaerdydd amrywiaeth eang o weithiau celf cyhoeddus, ychydig o ddehongli a fu sydd yn cydnabod yr amrywiaeth o weithiau sydd yn bodoli eisoes. Mae'r cyfle yn bod i sefydlu cysylltiadau rhwng gweithiau celf sydd yn bodoli eisoes yng Nghaerdydd ac i ddatblygu cyfres o 'lwybrau' o gwmpas y sir. Gallai themâu posibl gynnwys:

- Llwybr Hanesyddol: yn tynnu sylw at gofebion a cherfluniau o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg
- Wynebau Enwog: Yn cynnwys cofebion megis y rhai i Aneurin Bevan a Jim Driscoll
- Celf yn y Bae: Ffocysu ar deithiau cerdded byr o gwmpas yr harbwr mewnol
- Cyrhaeddwch a gyrrwch: Talu sylw i weithiau celf sydd wedi eu lleoli dros y sir
- Celf ar Adeiladau: Pwysleisio gweithiau celf modern a hanesyddol sydd yn rhan o ffasadau adeiladau.

8.38 Byddai datblygu llwybr gwaith celf nid yn unig yn galw am gyhoeddusrwydd drwy lenyddiaeth a mynediad drwy ffynonellau eraill megis gwefan y Cyngor, ond gallai hefyd alw am gynnydd yn adnabyddiaeth ar-safle y gweithiau celf trwy ddefnyddio arwyddion a llechfeini a safonwyd.

Argymhelliad 10 Marchnata
Dylid dyfeisio ymgyrch farchnata i hybu Strategaeth Celf Cyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth o gelf cyhoeddus ymhlith cynulleidfa a dargedwyd

8.39 Byddai ymgyrch farchnata yn helpu hybu'r Strategaeth, yn codi ymwybyddiaeth o'r cynllun ymhlith cynulleidfa a dargedwyd, yn meithrin cronfeydd ar gyfer cynlluniau ac yn rhoi hysbysrwydd i'r Cyngor a phartneriaid eraill a fu yn rhan o'r cynllun.

[9] www.pmsa.org.uk
[10] www.pmsa.org.uk

Llwythi, Stryd Stuart, Cei'r Forforwyn , Brian Fell, 2000



"Billy the Seal", Parc Victoria, Heol Parc Victoria, David Peterson, 1997

9. Cynllun Gweithredu

Mae'r argymhellion a sefydlwyd ym Mhennod 8 wedi eu hystyried fel rhan o gyfres o weithgarwch a ellir gweithredu o fabwysiadau'r cynllun. Mae'n bwysig cael cynllun clir, gan ffocysu ar yr hyn a ellir ei gyrraedd, sydd yn ymarferol a heb fynnu gormod o ymrwymiad. I'r perwyl hyn mae'r cynigion i'w gweithredu wedi eu rhannu yn gyfres o flaenoriaethau tymor byr, tymor canolig a thymor hir.

Blaenori aethau Tymor Byr

- Hybu'r ddogfen Strategaeth a pholisïau perthynol yn allanol ac o fewn y Cyngor
- Sefydlu safle'r Swyddog Celf Cyhoeddus o fewn y Cyngor
- Hybu gweithredu 'Canran ar gyfer Celf' ac integreiddiad cynnar celf cyhoeddus drwy gynigion datblygu
- Sefydlu cronfa ddata i gofnodi gwybodaeth am gelf cyhoeddus
- Datblygu tudalen 'Celf Cyhoeddus' ar wefan y Cyngor

Blaenoriaethau Tymor Canolig

- Sefydlu'r mecanwaith ar gyfer Cynllun Celf Cyhoeddus
- Adnabod cyfleoedd ar gyfer mentrau celf cyhoeddus yn y dyfodol
- Sefydlu mecanwaith ac aelodaeth Fforwm Celf Cyhoeddus
- Cydlynu rhaglen farchnata ar gyfer casgliad y ddinas o gelf cyhoeddus
- Adnabod anghenion cynnal a chadw a chynhyrchu rhaglen gynnal a chadw

Blaenoriaethau Tymor Hir

- Datblygu cyfres o arweinlyfrau taith a deunydd addysgol
- Ymchwilio a chynnig cyngor ar ffynonellau cyllid a chyfleodd am n awdd
- Cynnal arolwg o'r ddogfen strategaeth

"Cargoes"

"Cargoes"
Stryd Stuart, Cei'r For-forwyn
Brian Fell, 2000

Atodiad 1: Cyfeiriadau

Dogfennau

- Strategaeth Ddiwylliannol i Gymru: Dyfodol Creadigol (2002) Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Strategaeth Celf (1998) Cyngor Sir Caerdydd
- Strategaeth Cymuned Caerdydd 2004-2014 (2004) Cyngor Sir Caerdydd
- Cynllun Datblygu Unedol Caerdydd (hyd 2016): Datganiad Ysgrifenedig ar adnau (Hydref, 2003) Cyngor Sir Caerdydd
- Cynllun Lleol Dinas Caerdydd (1996) Cyngor Sir Caerdydd
- Strategaeth Twristiaeth Diwylliannol i Gymru (2003) Bwrdd Croeso Cymru
- Celf Cyhoeddus: Papur Gwyrdd Llywodraeth Ddinesig ar Gelf Cyhoeddus yng Nghaerdydd (Gwanwyn 2004) Cyngor Sir Caerdydd
- Polisïau Cynllunio Cymru (Mawrth 2002) Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Technegol 12: Cynllunio (2002) Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Strategaeth ar gyfer Celf Cyhoeddus ym Mae Caerdydd (1990) Corfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd

Gwefannau

- Cyngor Celfyddydau Cymru www.artswales.org
- Cyngor Sir Caerdydd www.cardiff.gov.uk
- CBAT: Asiantaeth y Celfyddydau ac Adfywiad www.cbat.co.uk
- Cywaith Cymru . Artworks Wales www.cywaithcymru.org
- Celf Cyhoeddus Ar-lein www.publicartonline.org.uk
- Sefydliad Cofebion Cyhoeddus a Cherflunwaith www.pmsa.org.uk

Cydnabyddiaeth

Cynhyrchwyd y ddogfen hon gyda chymorth CBAT: Asiantaeth y Celfyddydau ac Adfywiad a thynnodd hefyd ar ymarfer da a gynhwysir mewn ystod eang o strategaethau celf cyhoeddus sydd yn bodoli eisoes gan gynnwys y rhai hynny yn Lerpwl a Milton Keynes.

Atodiad 2: Cysylltiadau

Cysylltiadau Cyngor Sir Caerdydd

Os oes gennych ymholiadau cyffredinol ynglŵn â'r ddogfen hon neu gelf cyhoeddus, byddwch cystal â chysylltu â:

Grŵp Adfywiad
Cynllunio Strategol
Cyngor Sir Caerdydd
Neuadd y Sir
Glanfa Iwerydd
CAERDYDD CF10 4UW

Ffôn: (029) 2087 3478
Ffacs: (029) 2087 3466

Cysylltiadau Asiantaeth Celf Cyhoeddus Caerdydd

CBAT: Asiantaeth y Celfyddydau ac Adfywiad

123 Stryd Bute
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF10 5AE

E-bost: info@cbat.co.uk

Ffôn: (029) 2048 8772
Ffacs: (029) 2047 2439

Cywaith Cymru . Artworks Wales

Tŵr Crichton
11-12 Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5EE

E-bost: info@cywaithcymru.org

Ffôn: (029) 2048 9543
Ffacs: (029) 2046 5458

CARDIFF
CAERDYDD